# Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC 2008/2009

# Cynnwys

**Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol** .... 3

**Teledu**
BBC One .... 4
Atodiad BBC One Scotland .... 8
Atodiad BBC One Wales .... 10
Atodiad BBC One Northern Ireland .... 12
BBC Two .... 14
Atodiad BBC Two Scotland .... 17
Atodiad BBC Two Wales .... 18
Atodiad BBC Two Northern Ireland .... 19
BBC Three .... 20
BBC Four .... 23
CBBC .... 26
CBeebies .... 29
HD TV .... 31

**Radio**
BBC Radio 1 .... 33
BBC Radio 2 .... 36
BBC Radio 3 .... 39
BBC Radio 4 .... 41
BBC Radio 5 Live .... 43
Radio 5 Live Sports Extra .... 45
BBC 1Xtra .... 46
BBC 6 Music .... 48
BBC 7 .... 50
BBC Asian Network .... 52

**Cyfryngau'r dyfodol**
bbc.co.uk .... 54
BBCi .... 57

**Newyddion y BBC**
BBC News Channel .... 59
BBC Parliament .... 62

**Gwledydd a rhanbarthau**
Radio Lleol Lloegr .... 64
BBC Radio Scotland .... 67
Radio nan Gàidheal .... 69
Radio Wales .... 71
Radio Cymru .... 73
Radio Ulster/Foyle .... 75

**Ymrwymiadau pellach** .... 77

# Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Ym mis Hydref 2007, cymeradwyodd Ymddiriedolaeth y BBC strategaeth *Delivering Creative Future* y BBC a oedd yn sefydlu'r weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gyflawni chwe diben cyhoeddus y BBC trwy ddarparu gwerth i'n cynulleidfaoedd i gyd, buddsoddi mewn gwasanaethau llinol ac an-linol, gwasanaethu'r DU gyfan a helpu'r DU i baratoi ar gyfer dyfodol digidol. Mae canolbwynt ar gynnwys unigryw ac arloesol yn rhan ganolog o'r strategaeth hon.

Gan adeiladu ar y strategaeth hon, mae'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni (SoPPs) yn amlinellu egwyddorion golygyddol ar gyfer pob un o'n gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r SoPPs hefyd yn cynnwys ymrwymiadau ac amodau'r BBC fel y'u disgrifiwyd yn y Trwyddedau Gwasanaeth a gan Ofcom.

Roedd y llynedd yn flwyddyn llawn her i'r BBC, gyda materion golygyddol yn ymwneud â phleidleisio mewn cystadlaethau a dadleuon mewn perthynas â rhaglenni'n cynnwys y Frenhines a rhaglenni plant. Cafwyd ymateb cadarn, gyda gweithdrefnau cymeradwyo a chanllawiau newydd a rhaglen hyfforddi helaeth, *Safeguarding Trust*, i bob aelod staff sy'n gwneud penderfyniadau golygyddol.

Mae ein hymrwymiad i newyddiaduraeth leol, genedlaethol a rhyngwladol o'r uniondeb a'r safon uchaf yn parhau mor gryf ag erioed. Byddwn yn parhau i ymestyn cwmpas newyddion, gan adeiladu ar lwyddiant Bwletin 8pm o ran denu cynulleidfaoedd nad ydynt yn gwylio ein bwletinau eraill. Ym myd radio, bydd Radio 1 yn mynd â *Newsbeat* i bob cwr o'r DU, gan roi llais i gynulleidfa ifanc ac adlewyrchu eu pryderon ar yr awyr.

Yn 2008/09, byddwn yn darlledu amrywiaeth o raglenni i ysbrydoli ac ysgogi'r meddwl, er mwyn cynyddu gwybodaeth y gynulleidfa. Byddwn yn dathlu 150 mlwyddiant *On the Origin of Species* gan Darwin, er enghraifft, a bydd Simon Schama yn bwrw golwg ar hanes America wrth i etholiad arlywyddol yr UDA nesáu. Bydd prosiect byd natur uchelgeisiol Radio 4, *World on the Move*, yn sôn am fudiad anifeiliaid ar bum cyfandir.

Ym myd drama, byddwn yn adeiladu ar gryfder ein cyfresi sefydledig trwy gyflwyno rhaglenni newydd arloesol fel *Bonekickers* (am dîm o archeolegwyr) a chyfresi unigol unigryw fel *The Diary of Anne Frank* ac addasiad newydd o *Little Dorrit*. Bydd BBC Two yn canolbwyntio ar ddramâu unigol a darnau eraill gan awduron amrywiol, gan gynnwys *Burn Up*, drama gyffrous mewn dwy ran gan Simon Beaufoy, a darn i brocio'r meddwl gan Frank Cottrell Boyce, *God On Trial*.

Bydd uchafbwyntiau ym myd cerddoriaeth yn cynnwys casgliad arloesol o recordiadau sydd wedi'u comisiynu i ddathlu gwaith cyfansoddwyr Prydeinig ar Radio 2, a dathlu'r pen-blwyddi sy'n gysylltiedig â Vaughan Williams yn 2008 a Purcell, Handel, Haydn a Mendelssohn yn 2009 ar Radio 3.

Bydd 2008 yn flwyddyn fawr ym myd chwaraeon, gyda BBC One yn arwain y darllediadau aml-lwyfan o Euro 2008 a Gemau Olympaidd Beijing. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld rasio ceir Formula 1 byw yn dychwelyd i'r BBC ar ôl 14 mlynedd.

Gan adeiladu ar lwyddiant iPlayer y BBC, rydym am ddatblygu bbc.co.uk i gynnwys amrywiaeth eang o'r hyn a ddarlledir ar y BBC, yn ogystal â chyfryngau newydd a rhyngweithiol sy'n galluogi cynulleidfaoedd i ryngweithio â'r wefan a chyfrannu ati.

Yn fy marn i, bydd y blaenoriaethau golygyddol a'r gweithgareddau cysylltiedig a amlinellir yn SoPPs 2008/09 yn sicrhau y bydd hon yn flwyddyn gyffrous i'r BBC a'i chynulleidfaoedd.

# Teledu

# BBC One

## Cylch gwaith y gwasanaeth

BBC One yw gwasanaeth teledu cymysg mwyaf poblogaidd y BBC ledled y DU ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni o safon. Dyma brif sianel y BBC ar gyfer digwyddiadau cartref a rhyngwladol pwysig a dylai rhaglenni'r sianel adlewyrchu'r DU gyfan. Dylai cyfran uchel iawn o'r rhaglenni fod yn gynyrchiadau gwreiddiol.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Mae BBC One yn gwneud cyfraniad hanfodol i gyflawni'r diben pwysig hwn, gan roi gwerth i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd trwy newyddiaduraeth ryngwladol, genedlaethol a lleol o ansawdd. O ran Newyddion, bydd BBC One yn parhau i ategu ei fwletinau rheolaidd gyda rhaglen newydd 8pm, â'r nod o wneud y newyddion rhwydwaith yn fwy hygyrch ac eang ei gyrhaeddiad, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd. Hefyd, bydd yn darparu dadansoddiad a newyddiaduriaeth ymchwiliol o ansawdd, gan gynnal ei ymrwymiad cyfredol i faterion cyfoes yn ystod yr oriau brig, gyda rhaglenni arbennig oriau brig yn ategu *Panorama* yn rheolaidd.
- **Blaenoriaeth:** Bydd *The ONE Show* yn adeiladu ar ei llwyddiant cyfredol trwy ddatblygu ei chymysgedd nodedig o newyddiaduraeth boblogaidd ac adroddiadau o bob cwr o'r DU, tra bydd *Watchdog* a *Crimewatch* yn parhau i arloesi ym maes newyddiaduraeth materion defnyddwyr a throsedd. Bydd BBC One hefyd yn annog sgwrs a thrafodaeth am faterion cyfoes megis mewnfudo gyda chyfres ddogfen chwe rhan ac yn ystod y dydd bydd yna fwy o bwyslais ar ymgyrchoedd materion cyfoes pwysig.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Nod BBC One, sydd â chyfraniad pwysig iawn i'w wneud yn y maes hwn, fydd gwella'r ffordd y mae'n cyflawni'r diben trwy ei strategaeth barhaus o foderneiddio, gan gynnig amrywiaeth o raglenni nodedig, difyr yn ogystal â syniadau ffres a newydd. Eleni, bydd yr adloniant yn canolbwyntio ar edrych ar syniadau a ffyrdd newydd o ymdrin â pherfformiadau cerddorol gyda *Last Choir Standing*, cystadleuaeth ar gyfer amrywiaeth eang o gorau o bob rhan o'r DU, yn ogystal ag *I'd Do Anything,* sioe adloniant nos Sadwrn i chwilio am bobl i chwarae rhannau Nancy ac Oliver yn y sioe gerdd.
- **Blaenoriaeth:** O ran dramâu, bydd BBC One yn ceisio datblygu ei gryfder ym maes rhaglenni cyfres o ansawdd trwy gyflwyno teitlau newydd megis *Bonekickers* (am dîm o archeolegwyr), drama drosedd ysgafn *The Invisibles* a *Wallander* gyda Kenneth Branagh. Bydd y sianel yn ategu hyn gyda chyfresi nodedig megis *The Diary of Anne Frank*, addasiad newydd o *Little Dorrit* a *Fiona's Story* sy'n adrodd hanes menyw yn brwydro i ddod i delerau â'r ffaith bod ei gŵr yn gwylio pornograffi plant ar y rhyngrwyd.

- Bydd BBC One yn parhau i feithrin comedi newydd o Brydain ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd, gan gefnogi'r ysgrifenwyr a'r perfformwyr gorau yn y maes ansicr hwn. Mae cyfresi sy'n cael eu lansio eleni yn cynnwys *The Life of Riley* gyda Caroline Quentin a hefyd tair monolog comedi o waith Hugo Blick. Bydd *Outnumbered,* rhaglen arloesol sy'n cynnwys perfformiadau byrfyfyr gan blant, yn dychwelyd am yr eildro.

## 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC One yn allweddol yn y gwaith parhaus o gyflawni'r diben hwn, trwy fuddsoddi mewn rhaglenni ffeithiol o ansawdd ar gyfer cynulleidfa eang yn cwmpasu sawl maes pwnc er mwyn cyfrannu at strategaeth wybodaeth y BBC. Bydd yna fformat newydd yn gynnar gyda'r nosau ar gyfer gwyddoniaeth, *What? Where? Why?,* yn ogystal ag un rhaglen yn archwilio effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, *Planet Meltdown.* Rhoddir pwyslais ar gomisiynu cynnwys arloesol megis *Superswarm*, sy'n defnyddio technegau blaenllaw i ffilmio anifeiliaid, adar a phryfed wrth iddynt ymddwyn yn llu a *Earth's Great Events*, a fydd yn edrych yn fanwl ar anifeiliaid yn ymfudo.
- **Blaenoriaeth:** Edrychir yn fanwl ar ddulliau newydd a all greu cysylltiad gyda chynulleidfaoedd prif ffrwd mewn ffordd ddylanwadol. Er enghraifft *Wild SOS*, fformat hygyrch ac arloesol sy'n sbarduno gwylwyr i annog bywyd gwyllt i ddod i'w gerddi a rhaglen ddogfen *Desperately Hungry Housewives* a fydd yn edrych ar duedd mamau llwyddiannus iawn i ddioddef o anorecsia.
- Bydd rhaglenni plant yn dal i gael eu darlledu ar BBC One yn y prynhawn yn ystod yr wythnos, gan sicrhau bod teledu plant ar gael i'r gynulleidfa analog ochr yn ochr â'r arlwy ar deledu digidol y BBC.
- Ym maes cerddoriaeth a'r celfyddydau, bydd y gyfres *Imagine...* yn ymwneud â gitarau a cherddoriaeth gitâr. Bydd perfformio yn parhau'n amlwg yn Sesiynau BBC One, yn ogystal â *Last Night of the Proms.*

## 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Mae gan BBC One gyfraniad pwysig i'w wneud i gynrychioli amrywiaeth y DU ac yn unol â blaenoriaethau'r BBC yn y maes hwn, dechreuir cryfhau rhaglenni rhwydwaith o bob cwr o'r DU mewn amrywiaeth o feysydd, yn enwedig dramâu newydd. Er enghraifft *Purves and Purkella*, wedi'i lleoli yng Nghaeredin a *Sunshine*, yng Ngogledd Orllewin Lloegr. O ran rhaglenni ffeithiol, bydd *Air Medics* yn dilyn gwaith hanfodol a heriol y parafeddygon sy'n teithio mewn hofrenyddion o dri lleoliad yng ngogledd Lloegr. Bydd bwletinau Newyddion Rhwydwaith hefyd yn rhoi mwy o sylw i adlewyrchu'r DU sydd ohoni, ers datganoli.
- **Blaenoriaeth:** Bydd 2008 yn flwyddyn bwysig ym myd y campau, a bydd BBC One yn arwain y rhaglenni aml-lwyfan o Euro 2008 a'r Gemau Olympaidd yn Beijing. Bydd y rhaglenni cyn y Gemau yn edrych ar hanes athletwyr o bob cwr o'r DU wrth i'r genedl droi eu golygon at Lundain 2012 yn *Make Me An Olympian*. Bydd rhaglenni byw Formula 1 yn dechrau yn 2009.

## 5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC One yn parhau i ddefnyddio technolegau aml-lwyfan er mwyn i'r gynulleidfa allu rhannu, cyfrannu a chymryd rhan yn uniongyrchol yn y cynnwys, yn ogystal â dysgu mwy am bynciau a materion sy'n codi mewn rhaglenni. Mae rhaglenni aml-lwyfan sydd ar y gweill yn cynnwys *Choir Wars*, *Survivors* a *Britain From Above* a bydd cyfresi sydd wedi ennill eu plwyf gan gynnwys *EastEnders* a *The ONE Show* yn parhau i annog cyswllt gyda chynulleidfa eang iawn. Bydd BBC One yn ail-lansio'i wefan i gynnwys gwell rhestri a gwybodaeth am raglenni yn ogystal â chynnwys sy'n unigryw i'r rhyngrwyd. Bydd hefyd yn darlledu'n fyw ar yr un pryd â'r sianel deledu.

### 6 Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd

- Mae BBC One yn allweddol yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau’r BBC yn hyn o beth trwy amrywiaeth o ddulliau ym mhob maes. Bydd rhaglenni newydd yn cynnwys *Stephen Fry on America*, cyfres sy’n garreg filltir bwysig y bwriedir ei darlledu ym mlwyddyn etholiadau’r UD. Bydd cast rhyngwladol yn ymddangos mewn addasiad drama chwe rhan o *The No.1 Ladies’ Detective Agen*cy. Bydd y gyfres yn dilyn y ffilm a bydd hefyd yn cael ei ffilmio’n gyfan gwbl ar leoliad ym Motswana.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 45 awr o gelfyddyd a cherddoriaeth
  (heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 700 awr o raglenni ffeithiol newydd
- 1,500 awr o raglenni plant, ymrwymiad wedi’i rannu gyda BBC Two

### Cynrychioli’r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a’i chymunedau

- 110 awr o raglenni crefyddol, wedi’u rhannu gyda BBC Two
  (heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

## Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi’u diffinio fel bod rhwng 18:00 a 22:30 o’r gloch

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe’u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- O leiaf 70% o raglenni a 90% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a’r holl ailddarllediadau a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus y BBC)
- Cynnal y patrwm cyffredinol cyfredol o raglenni newyddion gydol y dydd, sef o leiaf 1,380 awr o raglenni newyddion rhwydwaith, gydag o leiaf 275 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 3,920 awr o raglenni newyddion rhanbarthol, gydag o leiaf 2,010 awr yn yr oriau brig.

Yn ogystal, mae BBC One yn rhannu’r ymrwymiadau canlynol gyda BBC Two:

- O leiaf 365 awr o raglenni materion cyfoes rhwydwaith gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (h.y. yr awr bob ochr i’r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One.
- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol o bob math, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o’r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i’r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i’r M25, a’r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC One:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# Atodiad BBC One Scotland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC One Scotland yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd yr Alban ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen.

Dylai'r gwasanaeth ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth yr Alban i wylwyr yn yr Alban a dyma yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yn yr Alban.

## Datblygiadau allweddol

Mae BBC One Scotland yn darparu amrywiaeth eang o raglenni teledu unigryw sy'n adlewyrchu natur amrywiol yr Alban a diwylliant a threftadaeth yr Alban i gynulleidfaoedd yr Alban. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC One Scotland eleni:

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Darparu nifer o drafodaethau arloesol ar bynciau cymdeithasol/economaidd pwysig a fydd yn effeithio ar gynulleidfaoedd yn yr Alban ac o ddiddordeb sylweddol iddynt (gyda rhaglenni a chynnwys ategol ar Radio Scotland ac ar-lein). Bydd rhaglen ddogfen chwe deg munud yn canolbwyntio ar ddyfodol olew yr Alban, gyda chyfleoedd i'r cyhoedd gyfrannu at drafodaeth genedlaethol ar radio gyda rhaglenni newyddion ategol ar y teledu ac ar-lein.
- Dyfnhau a chynyddu'r sylw a roddir i newyddion a digwyddiadau lleol, ar y teledu ac ar-lein, yn ogystal â meysydd megis newyddion busnes, gan ail-edrych ar staffio ac adnoddau er mwyn eu neilltuo i nodi a rhoi sylw i straeon cymunedau lleol ledled yr Alban.
- Darparu adroddiadau newyddion ar y teledu o Senedd yr Alban a chyfrifoldebau datganoledig, ac ategu hyn gyda rhaglenni radio estynedig a darllediad byw ar y we o bob un o gynadleddau'r prif bleidiau gwleidyddol yn yr Alban. Cyflogir staff newyddion ychwanegol, a fydd yn gweithio yn Senedd yr Alban i ddarparu darllediadau estynedig a chyfoethocach (a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd) ar faterion gwleidyddol, deddfwriaeth a'r ffordd mae'r Alban yn cael ei llywodraethu.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd y prosiect uchelgeisiol iawn, *Scotland's History,* yn arwain at gyfres o raglenni teledu i'w darlledu ar BBC One Scotland ac ym mhob rhan o'r DU ar y rhwydwaith gydol 2008 a 2009. Bydd nifer o gyfresi radio, cyngherddau gan yr SSO mewn gwahanol leoliadau enwog ledled yr Alban, teithiau clywedol, gwefannau ar-lein a rhaglenni ar gyfer dysgu, deunydd Gaeleg a digwyddiadau a gweithgareddau allgymorth yn ychwanegu at y rhaglenni.
- Darlledir cyfres o dair drama un awr unigol gan y dramodwyr cyfoes gorau ar BBC One Scotland, wedi'u hariannu mewn cydweithrediad â Scottish Screen.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- O ran rhaglenni ffeithiol, bydd y cyfresi dogfen a'r rhaglenni poblogaidd sydd wedi hen ennill eu plwyf (megis *The Beechgrove Garden*) yn cael eu hategu gan raglenni ffeithiol o ddiddordeb arbennig, yn rhoi sylw i faterion cyfoes o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yr Alban, megis *Girls Behind Bars*. Bydd *Wilderness: St Kilda* a *Air Medics*, sy'n sôn am y Great North Air Ambulance Service yn cael eu darlledu ar y rhwydwaith hefyd.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 265 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 140 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Scotland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

# Atodiad BBC One Wales

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC One Wales yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd Cymru ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen.

Dylai'r gwasanaeth ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Cymru i wylwyr yng Nghymru a dyma yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yng Nghymru.

## Datblygiadau allweddol

Bydd BBC One Wales yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy BBC One yn yr amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC One Wales eleni:

### 1 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Bydd cyfres yn adeiladu ar lwyddiant *Coal House* yn 2007 yn gwneud cyfraniad allweddol at hyrwyddo addysg a dysgu i gynulleidfa eang. Bydd *Coal House 2* yn hyrwyddo addysg a dysgu trwy bartneriaeth newydd gydag ysgolion a cholegau yng Nghymru a fydd yn manteisio'n llawn ar y cynnwys a gynhyrchwyd gan y fformat hanes aml-lwyfan arloesol ac yn apelio at gynulleidfaoedd iau, anodd eu cyrraedd.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Mae BBC One Wales yn bwriadu comisiynu rhaglenni dogfen arloesol ym maes y celfyddydau gan gynnwys rhaglen awr ar Dylan Thomas.

### 3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd BBC One Wales yn parhau i ddarparu darllediadau ac ymchwilio i faterion polisi cyhoeddus trwy ein rhaglenni newyddion a materion cyfoes.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC One Wales yn cynrychioli Cymru trwy raglenni cyfoes amrywiol iawn – drama, comedi a mentrau ffeithiol newydd megis *Go Wild With Iolo Williams*, fformat newydd a fydd yn annog pobl i ddod i gysylltiad ag amgylchedd Cymru.

### 5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Darperir amrywiaeth o'n rhaglenni ar lwyfannau gwahanol gan gynnwys elfennau o *Wales Today* a *Coal House 2*.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

**Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil**

- 250 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

**Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**

- 60 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

# Atodiad BBC One Northern Ireland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC One Northern Ireland (NI) yn ategu amserlen rhwydwaith BBC One trwy ddarparu rhaglenni o bob math sy'n apelio at gynulleidfaoedd prif ffrwd Gogledd Iwerddon ac sy'n cymryd lle rhaglenni BBC One yn llwyr neu'n eu symud i ran arall o'r amserlen. BBC One NI yw prif gyfrwng y BBC ar gyfer darlledu digwyddiadau pwysig yng Ngogledd Iwerddon.

## Datblygiadau allweddol

Mae BBC One Northern Ireland yn ychwanegu at uchelgais a phwrpas golygyddol teledu rhwydwaith gyda rhaglenni sy'n adlewyrchu natur ddeinamig ac amrywiol bywyd yng Ngogledd Iwerddon. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC One Northern Ireland eleni:

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC One Northern Ireland yn darparu rhaglenni helaeth o Gynulliad Gogledd Iwerddon ar *BBC Newsline* a bydd yn ei gwneud yn rhwydd i'r gynulleidfa gymryd rhan mewn trafodaethau am faterion gwleidyddol a datblygiadau trwy raglenni eraill, gan gynnwys *Let's Talk*.
- Edrychir ar ddigwyddiadau ac olion Helbulon trwy amrywiaeth o raglenni newydd eu comisiynu. Bydd y rhain yn cynnwys ffilm am y mudiad Hawliau Dynol yn seiliedig ar archif a rhaglenni dogfen am waith tîm gwaredu bomiau'r fyddin a'r digwyddiadau ym 1983 pan lwyddodd carcharorion i ddianc o Garchar y Maze.
- Byddwn hefyd yn cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd cyfoes Gogledd Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen ddogfen arsylwadol am iechyd meddwl a lles corfforol yn *Get Well NI* a pharatoadau pobl ifanc ar gyfer y Cymun Sanctaidd yn *Jesus, Mary and Money.*

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC One Northern Ireland yn dod â rhai o hanesion mwyaf cofiadwy gwrandawyr Radio Ulster yn fyw mewn cyfres newydd o ddarllediadau byr wedi'u hanimeiddio ar deledu lleol. Bydd *Days Like This* yn defnyddio clipiau archif a 'collage' i ddisgrifio'r ffordd mae digwyddiadau personol neu gymunedol wedi effeithio ar bobl leol. A bydd *Zero to Hero* yn amlinellu enw da cynyddol byd-eang tri darlunydd cylchgronau digri lleol.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Bydd amrywiaeth o raglenni newydd yn edrych ar ddysgu anffurfiol a thrafodaeth gymunedol ehangach ar effeithiau'r ffyrdd o fyw a'r gyrfaoedd y mae pobl yn eu dewis. Bydd y rhain yn cynnwys cyfres fer yn dilyn gyrfa cogydd dan hyfforddiant a rhaglenni yn edrych ar y ffordd y gall pobl ymdrin â dibyniaeth. Hefyd, bydd *Not the Man I Married* yn bwrw golwg ysgafn ar y ffyrdd y gall bobl reoli'r heriau sy'n ymwneud â pherthynas hirdymor.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Blaenoriaeth: Bydd holl raglenni BBC One Northern Ireland yn cynrychioli cymdeithas leol amrywiol, sy'n newid. Un o'n blaenoriaethau allweddol fydd cynrychioli diddordebau a phrofiadau gwahanol gymunedau a chyflwyno'u hanesion i gynulleidfa ehangach. Mae rhaglenni newydd a gafodd eu comisiynu ar gyfer 2008/09 yn cynnwys: rhaglen ddogfen ar waith y Ganolfan Gefnogaeth Trais; Michael McGarrigle yn dilyn hynt a helynt pobl a lleoedd yng Ngweriniaeth Iwerddon; rhaglen ddogfen am ein hobsesiwn lleol gyda cheir; a *Wanted Farmers Revisited* a'r newyddion diweddaraf am hynt a helynt teulu ffermio yn Swydd Fermanagh.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC One Northern Ireland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 280 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 80 awr o raglenni eraill (ac eithrio newyddion)

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC One Northern Ireland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC One fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC One.

# BBC Two

## Cylch Gwaith y Gwasanaeth

Sianel amrywiol yw BBC Two sy'n apelio at gynulleidfa eang o oedolion gyda rhaglenni treiddgar o sylwedd. Dyma'r sianel deledu BBC ddylai ddarlledu'r nifer fwyaf a'r amrywiaeth ehangaf o raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth pobl, a chânt eu hategu gan raglenni comedi, drama a chelfyddydol unigryw.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Two yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** BBC Two yw'r brif sianel ar gyfer cyflawni strategaeth datblygu gwybodaeth y BBC. Bydd yn ceisio rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau ffeithiol ac archwilio ffyrdd difyr ac ysgogol o gyflwyno rhaglenni ffeithiol pryfoclyd i gynulleidfa eang, gan ddefnyddio talent arbenigol neu ddulliau newydd yn aml i edrych ar bynciau cymhleth. Rhoddir pwyslais arbennig ar wyddoniaeth a hanes cyfoes eleni trwy amrywiaeth o gyfresi ffeithiol pwysig.
- **Blaenoriaeth:** Ddechrau 2009 rhoddir sylw i ddathlu can mlynedd a hanner ers cyhoeddi *On the Origin of Species* trwy droi sylw at Darwin ac esblygiad, gyda nifer o deitlau gan gynnwys rhaglen yn edrych ar ddylanwad Darwin ar syniadau a gwleidyddiaeth yr 20$^{fed}$ ganrif a rhaglen ble bydd Dr Alice Roberts yn datgelu hanes esblygiad yr hil ddynol. Trwy'r bartneriaeth rhwng BBC Two a BBC Four ceir rhaglenni ategol ar y pwnc hwn yn ystod y cyfnod, er mwyn i'r ddarpariaeth gael mwy o amrywiaeth, dyfnder ac effaith ar gynulleidfa.
- **Blaenoriaeth:** Mewn rhaglenni nodedig eraill, bydd Peter Taylor yn edrych ar wreiddiau hanesyddol mudiadau terfysgwyr yr oes, a bydd Simon Schama yn edrych yn fanwl ar y ffordd y mae hanes yr Amerig yn llunio'i dyfodol wrth i'r UD ethol ei Llywydd nesaf. Bydd Dan Cruickshank yn dychwelyd i'r sgrin i edrych ar bensaernïaeth byd-eang, a bydd Laurence Rees yn defnyddio'r gwaith ymchwil hanesyddol ddiweddaraf i roi disgrifiad newydd o ddiplomyddiaeth yr Ail Ryfel Byd. Ym myd natur, nod y sianel yw rhoi portread o fflora a ffawna yn *Wild China*, gyda rhaglenni ategol ar Tsieina ar BBC Four.
- Bydd BBC Two yn parhau i gynnal darpariaeth newydd y BBC ar gyfer y glasoed, trwy *Switch*, sy'n cynnig arlwy amrywiol gyda rhaglenni cerddoriaeth newydd yn *Sound*, drama a rhaglenni ffeithiol gwreiddiol ac wedi'u prynu, gyda chyfle ategol gwych i ryngweithio ar-lein ac ar y radio. Hefyd, bydd BBC Two yn parhau i ddarlledu rhaglenni plant ar gyfer y gynulleidfa analog, ochr yn ochr â sianeli digidol y BBC.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae swyddogaeth BBC Two i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r BBC yn y maes hwn yn cynnwys cynnal ei enw da am fod yn arloesol a nodedig trwy gomisiynu amrywiaeth o syniadau ffres a newydd a thrwy gefnogi'r rhagoriaeth ddiwylliannol mewn meysydd megis drama, cerddoriaeth a'r celfyddydau. Eleni canolbwyntir ar agweddau newydd tuag at raglenni celfyddydol gyda *Maestro* yn datgelu cyfrinachau arweinydd y gerddorfa a chyfres yn edrych ar hanes steil ym

Mhrydain.  Bydd *Later* and *The Culture Show* yn cael slot newydd, gan roi lle mwy amlwg, cyson  a chanolog i gerddoriaeth a chelfyddydau cyfoes yn yr amserlen.

- **Blaenoriaeth:** Rhoddir blaenoriaeth arbennig i adfywio a rhoi gwedd newydd ar gomedi eleni, gyda rhaglenni megis *Taking the Flak* sy'n edrych ar realiti adrodd am ryfeloedd modern, a *Lab Rats*, sef comedi sefyllfa wyddonol swrrealaidd gan Chris Addison. Bydd buddsoddiad mewn drama eleni yn canolbwyntio ar ddramâu unigol a darnau eraill sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys *Burn Up*, drama gyffrous mewn dwy ran gan Simon Beaufoy yn edrych ar y diwydiant olew a darn i brocio'r meddwl gan Frank Cottrell Boyce, *God On Trial*. Yn ystod y dydd, bydd BBC Two yn canolbwyntio ar gyflwyno fformatau adloniant ffeithiol ac adloniant deallus newydd.

## 3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two yn cyfrannu at flaenoriaethau'r BBC yn y diben hwn trwy newyddiaduraeth nodedig o ansawdd gyda dadansoddiad arbenigol a sylw i faterion rhyngwladol. Bydd strategaeth materion cyfoes y sianel yn canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni trawiadol yn ystod yr oriau brig. Bydd yn gweithio gyda thîm *This World* a phobl eraill i arbrofi gyda dulliau newydd o ddarlledu yn fwy effeithiol ar faterion tramor.  Bydd ffilm arloesol i nodi Dydd y Cofio yn cofnodi pob dyn a menyw o luoedd arfog Prydain a gollodd eu bywydau yn Iraq ac Afghanistan.
- Hefyd, bydd BBC Two yn ceisio cael amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd i gyfranogi mewn dinasyddiaeth weithgar ac yn y gwaith o roi bywydau pobl y DU ar gof a chadw.  Bydd *Switch,* parth y glasoed, yn lansio sioe drafod newydd i'r rhai yn eu harddegau yn ogystal â chyfres o adloniant arloesol, *Speak Up For Britain*, a fydd yn herio pobl ifanc o bob rhan o'r DU i ddatblygu eu sgiliau siarad cyhoeddus.

## 4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Gan adeiladu ar lwyddiant y tymor *White*, byddwn yn parhau i greu tymhorau gwirioneddol aml-lwyfan gan gynnwys prosiect i gofio 90 blwyddyn ers y Cadoediad.  Byddwn yn ail-lansio brandiau rhaglenni pwysig ar-lein gan gynnwys *Gardeners' World* a *The Culture Show*, a fydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer amrywiaeth eang o raglenni BBC cyfan ar bynciau megis rhianta, coginio, diwylliant a garddio.  Bydd gwefan BBC Two hefyd yn dechrau gwneud y ddarpariaeth yn fwy personol, gan ddweud wrth y gwylwyr am gyfleoedd eraill i gyfranogi yn ein cynnwys y tu allan i'r amserlen, gan gynnwys cyfres lawn o dudalennau rhaglenni a fydd yn cynnwys fideo. Byddwn hefyd yn cynrychioli sylwadau a gweithgareddau gweddill y wefan ar wefan y sianel, gan ddechrau datblygu gwell cyswllt rhwng y gynulleidfa a'r sianel.

## 5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Two yn ychwanegu ar bortread y BBC o gymunedau amrywiol y DU trwy raglenni o bob math gan gynnwys *The Cup*, rhaglen gomedi sy'n dilyn tîm pêl-droed plant yng Ngogledd Lloegr, cyfres gan Alexei Sayle yn edrych ar ei ddinas frodorol, Lerpwl i ddathlu ei blwyddyn fel prifddinas Diwylliant Ewrop, a chyfres yn dilyn Jimmy Doherty wrth iddo gyfarfod ag arwyr ffermio ym mhob rhan o gefn gwlad y DU.  Bydd *Electric Proms* 2008 hefyd yn canolbwyntio ar Lerpwl. O ran rhaglenni ffeithiol, bydd BBC Two hefyd yn dangos cyfres nodedig BBC Scotland, *Scotland's History.*

## 6 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC Two yn parhau i gyfrannu i'r diben hwn trwy raglenni sydd â blas rhyngwladol cryf sy'n dyfnhau dealltwriaeth cynulleidfaoedd o'r byd o'n hamgylch.  Ochr yn ochr â darpariaeth reolaidd *Newsnight* a'i rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni dogfen, bydd Jonathan Dimbleby yn teithio trwy berfeddion Rwsia gyfoes a bydd Bruce Parry yn mynd ar daith uchelgeisiol i edrych ar realiti bywyd ym masn yr Afon Amason.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 520 awr o raglenni ffeithiol newydd
- 1,500 awr o raglenni plant, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC One

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 200 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth
  (heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

### Adlewyrchu'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 110 awr o raglenni crefyddol, ymrwymiad wedi'i rannu gyda BBC One
  (heb gynnwys yr hyn a ddarlledir dros nos yn y Sign Zone)

## Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 18:00 a 22:30 o'r gloch.

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- O leiaf 70% o raglenni ac 80% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a'r holl ailddarllediadau a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus y BBC)

Yn ogystal, mae BBC Two yn rhannu'r ymrwymiadau canlynol gyda BBC One:

- O leiaf 365 awr o raglenni materion cyfoes rhwydwaith gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau nesaf at yr oriau brig (h.y. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One.
- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol o bob math, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25 o'r oriau a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC One:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# Atodiad BBC Two Scotland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Two Scotland yn diwallu anghenion a diddordebau arbennig cynulleidfaoedd yr Alban, gan ategu apêl rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two Scotland.

## Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two Scotland yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yn yr Alban ar gyfer cynulleidfaoedd yr Alban. Bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd fel yr amlinellir yn y drwydded gwasanaeth. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC Two Scotland eleni:

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd *Primetime*, ar y cyd â BBC Scotland a menter y Gronfa Loteri Fawr, yn dathlu a hyrwyddo iechyd, lles, ffitrwydd a gweithgareddau corfforol i bobl dros 50 oed yr Alban a bydd yn cael ei ddarlledu ar BBC Two Scotland. Bydd y rhaglenni yn canolbwyntio ar amrywiaeth o brosiectau sy'n annog pobl hŷn i deimlo'n dda amdanynt eu hunain, gwella cysylltiadau rhwng cenedlaethau a chyfrannu at gymunedau'r Alban. Bydd chwe phrosiect yn ennill rhan o £3 miliwn o'r Gronfa Loteri Fawr a bydd y fenter yn cael cefnogaeth holl lwyfannau darlledu BBC Scotland ac ymgyrch llythrennedd y cyfryngau.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC Two Scotland yn darlledu tymor o raglenni ym mis Ionawr 2009 i ddathlu 250 mlynedd ers geni bardd cenedlaethol yr Alban, Robert Burns (gyda chynnwys a rhaglenni ategol ar Radio Scotland, Radio nan Gaidheal ac ar-lein).
- Bydd amrywiaeth o raglenni dogfen a rhaglenni cylchgrawn yn cynrychioli ehangder gweithgareddau ym maes y celfyddydau yn yr Alban, gan gynnwys Gŵyl Caeredin a digwyddiadau perfformio cenedlaethol eraill megis T in the Park.
- Hefyd, byddwn yn datblygu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac sy'n adleisio'r gymysgedd ddemograffig sy'n esblygu'n barhaus yn yr Alban. Byddant yn cynnwys drama hir a fydd yn ymwneud â chymunedau ceiswyr lloches yr Alban, o ran y cynhyrchiad a'r deunydd pwnc.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni ffeithiol o ansawdd yn Saesneg a Gaeleg, yn ymdrin â phynciau a deunydd sy'n berthnasol iawn ac o ddiddordeb arbennig i gynulleidfaoedd ledled yr Alban. Bydd hyn yn cynnwys cyfres Gaeleg ar entrepreneuriaid ifanc.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir. Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

**Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**

- 190 awr o raglenni heblaw newyddon bob blwyddyn gan gynnwys rhaglenni mewn Gaeleg

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Scotland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

# Atodiad BBC Two Wales

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae gwasanaeth BBC Two Wales yn darparu rhaglenni amrywiol i Gymru, gan apelio at gynulleidfa eang gyda rhaglenni perthnasol a threiddgar. Dylai ddarparu amrywiaeth o raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth y gwylwyr ynghyd â rhaglenni dogfen am gefn gwlad a'r gymdeithas gyfoes sydd â'r nod o fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

## Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two Wales yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Bydd yn parhau i gyfrannu tuag at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd fel yr amlinellir yn y drwydded gwasanaeth. Dyma ddatblygiadau allweddol BBC Two Wales eleni:

### 1 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Mae BBC Two Wales wedi comisiynu nifer o gyfresi a fydd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymru'r gorffennol a'r presennol gan gynnwys cyfres am wneuthurwr mapiau arloesol yn y 18fed Ganrif a chyfres ddogfen yn dilyn gwaith Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC Two Wales yn darlledu cyfres gyfoethog ac amrywiol o raglenni dogfen celfyddydol gan gynnwys cipolwg ar y ffurf ddynol ochr yn ochr â'r wobr Artes Mundi. Byddwn hefyd yn parhau i ddarlledu digwyddiadau diwylliannol pwysig gan gynnwys Gŵyl y Faenol, Proms in the Park a'r Eisteddfod Genedlaethol.

### 3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd gwleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus Cymru yn parhau i gael sylw craff yn y rhaglen wleidyddol wythnosol *Dragon's Eye*.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Two Wales yn dathlu a chynrychioli Cymru, ei chymunedau a'i thirwedd mewn amrywiaeth o feysydd. Bydd hyn yn cynnwys cyfres yn edrych ar 3 Pharc Cenedlaethol Cymru a safbwynt plentyn ar fywyd yng Nghymru.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 160 awr o raglenni heblaw newyddion bob blwyddyn

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Wales yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

# Atodiad BBC Two Northern Ireland

## Cylch gwaith y Gwasanaeth

Mae BBC Two Northern Ireland (NI) yn darparu rhaglenni arbenigol sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n ategu amrywiaeth ac apêl y rhaglenni rhwydwaith ar BBC Two NI.

## Datblygiadau allweddol

Mae BBC Two Northern Ireland yn cyflawni'i chylch gwaith gan amlaf trwy symud rhaglenni rhwydwaith i wneud lle i raglenni a gynhyrchwyd yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cynulleidfaoedd lleol.

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd BBC Two Northern Ireland yn rhoi sylw penodol i drafodaethau a phenderfyniadau'r Cynulliad fel rhan o *Stormont Live* a bydd yn edrych ar y materion a'r datblygiadau gwleidyddol ehangach yn *Hearts and Minds*.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Two Northern Ireland yn atgyfnerthu ac ehangu ein rhaglenni teledu yn y Wyddeleg trwy gomisiynu amrywiaeth o raglenni newydd. Bydd y rhain yn cynnwys: *Imeall Geall*, cyfres gylchgrawn o'r stiwdio i gynulleidfaoedd iau; *Na Dodai* ar gyfer y rhai 3–5 oed sy'n dysgu'r iaith, cyfres fer o raglenni wedi'u hanimeiddio o'r Nerve Centre yn seiliedig ar chwedlau a straeon tylwyth teg; a phroffil dogfennol o ysgol gynradd cyfrwng Gwyddeleg gyntaf Gogledd Iwerddon yn *The Class of 71*.

### 3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd BBC Two Northern Ireland yn defnyddio slot neilltuol ar nos Wener i roi sylw i ddoniau a syniadau newydd ar gyfer gwneud rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys *Project X* a'i gyfuniad o animeiddio, cerddoriaeth newydd a chomedi ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Two Northern Ireland

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 55 awr o raglenni heblaw newyddion bob blwyddyn

## Ymrwymiadau statudol

Yn ogystal â'r amodau a'r ymrwymiadau a amlinellir yn yr Atodiad hwn, bydd BBC Two Northern Ireland yn cyfrannu fel y bo'n briodol at y gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau statudol ar gyfer gwasanaeth rhwydwaith BBC Two fel y'u disgrifir yn y prif Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer BBC Two.

# BBC Three

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Three yn denu cynulleidfaoedd iau i wasanaeth darlledu cyhoeddus o safon uchel trwy amserlen sy'n cynnwys rhaglenni arloesol o bob math sy'n dangos doniau newydd y DU. Dylai'r sianel ddefnyddio'r holl lwyfannau digidol i ddarparu'i chynnwys a meithrin perthynas ryngweithiol gyda'i chynulleidfa.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC yn yr amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae'r diben hwn yn ganolog i gylch gwaith BBC Three ac eleni bydd yn rhoi pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r BBC trwy gefnogi doniau newydd a buddsoddi mewn syniadau newydd, mentrus. Er enghraifft, bydd BBC Three yn ymdrechu i gynnal ei henw da fel sianel ddigidol fwyaf blaenllaw y DU ar gyfer syniadau a doniau newydd ym maes comedi gan gynnwys defnydd arloesol o CGI yn *The Wrong Door* a chyfres gomedi newydd o'r enw *Coming of Age* wedi'i hysgrifennu gan fyfyriwr 19 oed. Ym maes drama, yn dilyn cyfres o dreialon arbrofol y llynedd bydd y sianel yn canolbwyntio ar gyfresi drama newydd o'r DU sydd â phwyslais ar ddoniau ifanc, gan gynnwys *PA's*, *Spooks: Code 9* a *Being Human.*
- **Blaenoriaeth:** Fel rhan o ymrwymiad y BBC i berfformwyr o Brydain, darlledir cyfres adloniant gomedi hollol newydd o'r enw *The Wall* gyda'r nod o'i datblygu'n llwyfan ar gyfer doniau comedi newydd ar ran portffolio cyfan y BBC.

### 2 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Three yn parhau i arloesi ac ymdrechu i wella mwy ar ei henw fel brand aml-lwyfan blaenllaw, gan gynrychioli'r ffyrdd y mae ei chynulleidfa yn defnyddio'r amryw gyfryngau. Bydd yn adeiladu ar lwyddiannau diweddar, gan gynnwys cynulleidfaoedd mewn ffordd lawer mwy rhyngweithiol a defnyddio'u cyfraniadau safonol iawn yn aml. Bydd cynnwys cryno yn flaenoriaeth arbennig eleni, yn ogystal â sicrhau bod mwy o gynnwys ar gael ar lwyfannau symudol a chludadwy. Cynhelir nifer o fentrau hefyd wedi'u llunio i annog dinasyddiaeth weithredol ymysg y gynulleidfa gan ddefnyddio'r we ar gyfer materion perthnasol a phynciau llosg y dydd.
- Bydd gwefan y sianel yn edrych hefyd ar fwy o ffyrdd newydd i gynnwys y gynulleidfa gan gynnwys fersiynau ffres o *Live Arena* a'r cynllunydd amserlen newydd.

### 3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Mae gan BBC Three gyfraniad pwysig i'w wneud i gefnogi blaenoriaeth y BBC i sicrhau bod adrannau anoddach eu cyrraedd o'r gynulleidfa yn rhoi gwell sylw i newyddion, materion cyfoes a phynciau llosg sy'n berthnasol iddynt. Bydd *60 seconds* yn parhau fel prif fwletin newyddion teledu'r sianel a bydd y rhaglen *Mischief* yn dychwelyd gan edrych eleni ar bynciau megis lefel dyled uchel ymysg yr ifanc a'r prinder tai difrifol ar gyfer pobl ifanc. Dangosir bwletin Newyddion y Byd yn ogystal â bwletinau arbennig ar bynciau megis gwyddoniaeth, technoleg a'r amgylchedd hefyd.

- Bydd y *Lost Innocence Season* yn dangos amrywiaeth o raglenni dogfen yn edrych ar y ffordd y gall bywyd fod yn galed i rai plant ifanc iawn yn y DU heddiw a bydd *Young Mum's Mansion* yn casglu nifer o famau sengl ifanc at ei gilydd mewn un man i weld a allant oresgyn rhai o'r anawsterau sy'n eu hwynebu trwy fyw gyda'i gilydd.

### 4 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at ddiben y BBC yn y maes hwn gan edrych ar amrywiaeth eang o bynciau anodd mewn fformatau grymus a deniadol, gyda'r nod o ddenu sylw cynulleidfaoedd o oedolion iau at amrywiaeth o bynciau. Yn *Blood, Sweat and T-Shirts* bydd grŵp o bobl yn eu harddegau yn teithio i India lle byddant yn gweithio mewn ffatrïoedd gwneud dillad, er mwyn deall yr ymdrech y mae gweithwyr yr ochr arall i'r byd yn ei gwneud i gynhyrchu dillad mor rhad. Cyfres yw *Make my body Younger* a fydd yn ceisio rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am y peryglon iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw afradlon. Nod *My Life As A…*fydd addysgu gwylwyr am faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid.

### 5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Three yn parhau i gyfrannu at ddiben y BBC yn y maes hwn gan sicrhau cynrychiolaeth gref i amrywiaeth y DU yn y ffordd y mae'n cysylltu â chynulleidfaoedd ifanc. Er enghraifft, bydd darllediadau o wyliau cerdd yn amrywio o *Glastonbury* i *T in the Park*, i *The Reading & Leeds Festivals* a *Radio One's Big Weekend.*
- Bydd *The MOBO (Music of Black Origin) Awards* a chyfres gomedi newydd sbon *Trexx and Flipside*, yn ogystal â *Scallywagga* (o Fanceinion), hefyd yn rhan o strategaeth BBC Three i gynrychioli amrywiaeth lawn y DU heddiw.

### 6 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC Three yn parhau i ddwyn materion a phynciau rhyngwladol i sylw ei chynulleidfa. Dangosir y rhaglen ddogfen *Whose Hair is it Anyway?* yn y *Beauty Season*, gan edrych ar y duedd gynyddol i gael estyniadau gwallt a gofyn o le yn union y maen nhw'n dod.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Three

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 35 awr o raglenni cerddoriaeth a chelfyddydau newydd

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 125 awr o raglenni ffeithiol newydd

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 15 awr o raglenni materion cyfoes newydd

## Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 19:00 a 24.00 o'r gloch.

Cytunir ar y cwotâu canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- O leiaf 80% o raglenni a 70% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC heb gynnwys holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar un arall o sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC).

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC One:
- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# BBC Four

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Sianel deledu'n cynnig rhaglenni amrywiol ar gyfer oedolion o bob oed yw BBC Four. Mae'n darlledu detholiad uchelgeisiol o raglenni arloesol o safon uchel sy'n ddeallusol ac yn ddiwylliedig. Dylai ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni ffeithiol a chelfyddydol.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Four yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Four yn ymdrechu i wella darpariaeth y diben hwn trwy gomisiynu amrywiaeth eang o raglenni nodedig iawn sy'n cwmpasu agenda amrywiol. Bydd yn ehangu'r dewis o ffilmiau a rhaglenni dogfen fydd yn cael eu darlledu ar deledu ac yn rhoi lle i gymhlethdod, chwilfrydedd deallusol ac awduriaeth, yn enwedig ym maes celfyddydau a diwylliant.
- **Blaenoriaeth:** O ran cerddoriaeth, bydd y sianel yn gweithio'n agosach gyda'r Proms er mwyn rhoi gwell cyd-destun trwy raglenni dogfen newydd ochr yn ochr â pherfformiadau sydd gyda'r gorau yn y byd. Bydd yn adeiladau ar lwyddiant rhaglenni dogfen cerddorol diweddar gyda chyfres arloesol ar gerddoriaeth gysegredig y gorllewin a cherddoriaeth werin Americanaidd, yn ogystal â bywgraffiadau Vaughan Williams a Quincy Jones. Ym maes y celfyddydau, bydd Andrew Graham-Dixon yn edrych ar gychwyn y syniad o'r arlunydd adeg y Dadeni yn yr Eidal a bydd Waldemar Januszczak yn edrych ar y cyfnod Baróc. Hefyd, bydd y sianel yn dathlu ffotograffiaeth a llenyddiaeth glasurol ar deithio, darlunio ar gyfer plant a phensaernïaeth Palladio.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Four yn parhau i wneud cyfraniad helaeth at ddiben y BBC ym maes gwybodaeth, gan roi mwy o gyd-destun a dyfnder nag unrhyw sianel arall y BBC. Bydd yn parhau i ymdrin ag amrywiaeth uchelgeisiol o bynciau ac yn aml yn rhoi lle yn ystod oriau brig i gyflawni'r hyn y mae sianeli prif ffrwd yn ei chael yn anodd, megis edrych yn fanwl iawn ar thema unigol. Bydd hefyd yn gweithio'n agosach fyth gyda BBC Two er mwyn i raglenni gwybodaeth y BBC fod yn fwy trawiadol fyth.
- **Blaenoriaeth:** Bydd y sianel yn parhau ei strategaeth lwyddiannus o ddefnyddio tymhorau ac wythnosau thema er mwyn sicrhau cyfraniad mwy trawiadol at y diben hwn. Eleni bydd yn dangos tymhorau hanesyddol megis *Inside the Medieval Mind*, mis o raglenni yn edrych ar ddiwylliant a chyflawniadau'r Oesoedd Canol. Bydd y tymor arsylwadol *Modern Childhood* yn treiddio i fyd plant Prydain yn y 21ain Ganrif a'i gweld trwy eu llygaid hwy. Hefyd, bydd BBC Four yn darlledu cyfresi arloesol ar syniadau cyfredol ym maes gwyddoniaeth cyn-geni, gwyddoniaeth Islamaidd, mathemateg, hanes llawdriniaeth a byd natur y diffeithwch.

### 3 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Bydd BBC Four yn gwneud cyfraniad sylweddol at flaenoriaethau diben y BBC yn y maes hwn, trwy ehangu profiad cynulleidfaoedd o wahanol ddiwylliannau o bob cwr o'r byd. Bydd

yn parhau i ddarlledu y goreuon o blith ffilmiau hir a rhaglenni dogfen rhyngwladol ac mewn ieithoedd tramor, gan gynnwys *Storyville* yn ogystal â newyddion rhyngwladol. Eleni, bydd y sianel yn ychwanegu cyfres ddrama mewn iaith dramor at yr amrywiaeth, gyda'r darllediad cyntaf erioed o *La Meglio Gioventù*, y ddrama Eidalaidd uchelgeisiol 6 awr sydd wedi ennill llu o wobrau. Bydd hefyd yn cyflwyno tair rhaglen ddogfen i ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu gwladwriaeth Israel, ac ar gyfer Blwyddyn Tsieina'r BBC bydd BBC Four yn darlledu *Chinese School*, wedi'i lleoli yn nhref wledig Anhui a'r *Biggest Chinese Restaurant in the World*.

### 4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Mae BBC Four yn cyfrannu at y diben hwn trwy ddefnyddio ei gwefan i annog cymunedau rhithwir i gyfnewid safbwyntiau a syniadau am y materion a gafodd eu trafod yn ein rhaglenni. Eleni bydd yn adeiladu ar lwyddiannau tymhorau diweddar, gan geisio cyfoethogi'r ddarpariaeth ar y teledu gyda chynnwys mwy treiddgar ac amrywiol ar y we a thrwy ddefnyddio'r botwm coch. Hefyd, bydd y sianel yn edrych ar ddatblygu gwell cyswllt gyda chymunedau ar-lein penodol o bobl frwdfrydig a blogwyr ac mae'n bwriadu gwella cynnwys y wefan fel y gall gwylwyr adolygu a hyd yn oed awgrymu syniadau ar gyfer rhaglenni i'w dangos o'r archif.

### 5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd BBC Four yn parhau i wneud cyfraniad arbennig at gyflawni'r diben hwn ym maes celfyddydau a diwylliant trwy barhau i roi sylw i berfformwyr a pherfformiadau o bob gwlad a rhanbarth yn y DU. Yn ychwanegol eleni, bydd y sianel yn parhau â'i diddordeb mewn hanes cymdeithasol diweddar trwy edrych ar effaith toriadau Beeching ar fywyd ym Mhrydain. Nod *In Search of Medieval England* fydd datgelu agweddau o'r Canol Oesoedd sydd i'w gweld yn y DU hyd heddiw.
- O ran cerddoriaeth, bydd *The BBC Young Musician of the Year* yn rhoi llwyfan i'r doniau cerddorol gorau o bob cwr o'r DU.

### 6 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd BBC Four yn parhau i gyfrannu at y diben hwn yn bennaf trwy ei rhaglenni dogfen a rhaglenni sy'n dadansoddi'r newyddion. Bydd yn ymdrechu i gynnal ei swyddogaeth unigryw yn y maes hwn gyda chyfres fydd yn adlewyrchu amrywiaeth eang o brofiadau bywyd yn y DU. Bydd pynciau'n cynnwys yr Iddewon yn y Brydain gyfoes, plant mewn tymor *Modern Childhood*, a bydd *The Black Power Salute* a *Flying* yn edrych ar straeon unigol yn y frwydr dros sicrhau cydraddoldeb. Bydd cyfres newydd, *Department Stores,* yn dangos y gwrthdaro rhwng siopau lleol a chenedlaethol ar strydoedd mawr Prydain, gan ganolbwyntio ar rannau gwahanol iawn o gymdeithas a brwydr siopau cymunedol i barhau ar agor.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Four

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys dangosiadau cyntaf o raglenni gwreiddiol a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

#### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 100 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth newydd

#### Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- 20 dangosiad cyntaf o ffilmiau rhyngwladol newydd
  (wedi'i ddiffinio fel y dangosiad cyntaf yn y DU ar sianel deledu ddigidol)

#### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 110 awr o raglenni ffeithiol newydd

## Ymrwymiadau statudol

Mae oriau brig yn yr ymrwymiadau hyn wedi'u diffinio fel bod rhwng 19:00 a 24:00 o'r gloch.

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- O leiaf 70% o raglenni a 50% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC ac eithrio ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar un arall o sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC).

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai'r rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau BBC Four:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys
(Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# CBBC

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae CBBC yn darparu amrywiaeth eang o raglenni nodedig o safon uchel ar gyfer plant 6–12 oed, gan gynnwys drama, adloniant, comedi, rhaglenni wedi'u hanimeiddio, newyddion a rhaglenni ffeithiol. Dylai'r rhan fwyaf o'r rhaglenni fod wedi'u cynhyrchu yn y DU.

Dylai CBBC ddarparu amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus sydd hefyd yn ddiogel ac y gellir ymddiried ynddo. Dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio'n arbennig ar ddysgu anffurfiol, gyda phwyslais ar annog cyfranogiad.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd CBBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBBC gyfraniad hanfodol i'w wneud yn y maes hwn, gan gyfoethogi'r gwaith o gyflawni'r diben craidd hwn ar gyfer y BBC gyda'r gynulleidfa o blant trwy raglenni o bob math, gan gynnwys adroddiadau newyddion a rhaglenni ffeithiol newydd sy'n tynnu sylw at gyfranogiad cymdeithasol a dinasyddiaeth. Yn ogystal â *Newsround* a *Blue Peter*, a fydd yn dychwelyd i'r sgrin, bydd CBBC yn darlledu *Who Wants to be a Super Hero.* Nod y rhaglen honn fydd annog cyfranogiad cymdeithasol cadarnhaol trwy osod cyfres o dasgau wedi'u llunio i roi prawf ar ddealltwriaeth y cystadleuwyr o weithredoedd cymdeithasol da.
- **Blaenoriaeth:** Bydd prosiect 360 gradd newydd o'r enw *Election* yn cynnwys plant o bob rhan o'r DU ac yn cynrychioli amrywiaeth o ddiddordebau gan eu cynorthwyo i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Bydd CBBC yn parhau i gyfrannu at flaenoriaethau'r BBC i gyflawni'r diben hwn trwy annog ei chynulleidfa i ddysgu yn anffurfiol mewn amrywiaeth o bynciau gan ddefnyddio gwahanol fathau o raglenni. Defnyddir drama i hyrwyddo dysgu anuniongyrchol gyda chyfres arall o'r rhaglen *Roman Mysteries*, yn seiliedig ar lyfrau Caroline Lawrence. Bydd rhaglenni megis *Gastronauts,* sioe ffeithiol a fydd yn cynorthwyo plant i ddysgu am effaith bwyd ar y corff, ac ail gyfres o *Get 100*, rhaglen rhifyddeg pen yn defnyddio dulliau mwy uniongyrchol. Ym maes astudiaethau natur bydd *The Everyday Guide on How to Dodge Disaster* yn rhoi cyngor ar sut i ymdrin yn well â byd natur.
- Hefyd, bydd CBBC yn parhau i ddefnyddio llwyfannau rhyngweithiol er mwyn i'w ddarpariaeth ffeithiol gael mwy o effaith, gyda *BAMZOOKi* yn parhau i roi cyfle i'r gynulleidfa gymryd rhan mewn dylunio creadigol, ac isadran gwefan *Blue Peter*, *Me and My Movie*, yn cynorthwyo i ddysgu am greadigrwydd a llythrennedd cyfryngau, gan alluogi plant i wneud, llwytho a golygu ffilmiau cartref.

### 3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBBC gyfraniad unigryw i'w wneud i'r BBC wrth gyflawni'r diben hwn gan mai hi yw'r unig sianel sy'n buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni wedi'u cynhyrchu yn y DU ar

gyfer cynulleidfa 6–12 oed. Eleni ei nod fydd cynnal y cyfraniad hwn a rhoi hwb i enw da y BBC am raglenni creadigol ac arloesol. Mae gan ddrama a chomedi gyfraniad arbennig o bwysig i'w wneud yn y maes hwn. Bydd cyfres newydd *Half Moon Investigates* yn cyflwyno bachgen sydd am ddileu mân droseddau a bydd *Hotel Trouble* yn rhaglen wahanol ac arloesol a fydd yn cyfuno comedi sefyllfa ag elfennau o deledu realiti, gyda chyfraniad uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd.

- **Blaenoriaeth:** Hefyd, bydd CBBC yn parhau i gomisiynu a datblygu prosiectau newydd, arloesol sy'n annog cyfranogiad mewn amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol o bob math. Eleni, gwelir y darllediad cyntaf o *Imaginarium*, rhaglen newydd o'r Alban, sy'n cyfuno peirianneg a gwyddoniaeth i roi bodolaeth i ddyfeisiadau'r plant eu hunain.

## 4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Mae CBBC yn frand aml-lwyfan a'i nod yw gwella mwy ar ei darpariaeth ar-lein a'i henw da am arloesed trwy gynnig digon o gyfle i ddefnyddwyr ryngweithio a chyfle i ddefnyddio a rhyngweithio gyda'r ddarpariaeth yn uniongyrchol ar y we. Eleni cyflwynir cyfres newydd, *Tronji*, a fydd yn cyfuno'r byd go iawn gydag un wedi'i animeiddio'n llawn trwy gyfrwng cyfrifiaduron a bydd *MyCBBC* yn parhau yn lle diogel i blant greu cynnwys a'i rhannu gyda'u ffrindiau. Mae'r un peth yn wir am *Adventure Rock,* sef byd y gellir ei lawrlwytho ac y gall plant ei archwilio ar eu cyfrifiadur personol yn y cartref.

## 5 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd CBBC yn ymdrechu i gyfrannu at flaenoriaethau'r BBC yn y maes hwn trwy barhau â'i swyddogaeth bwysig o roi llais i'r gwahanol gymunedau, meithrin ymdeimlad o fod yn perthyn, a hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth ei chynulleidfa. Bydd rhaglenni wedi'u cynhyrchu gan BBC Scotland yn parhau yn amlwg iawn, gyda *Raven* ac ail gyfres o *Stake Out*. Bydd *Sarah Jane Adventures,* BBC Wales hefyd yn dod yn ôl i'r sgrin a bydd *Blue Peter* a *Newsround* yn parhau i gyflwyno straeon ac adroddiadau o bob gwlad a rhanbarth yn rheolaidd.
- Hefyd bydd CBBC yn lansio'i *Olympic Games Village* ei hun ar-lein, gan ddod â'r gynulleidfa yn rhan o'r digwyddiad cenedlaethol a rhyngwladol pwysig hwn, gyda'r nod o annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon yn eu hardal leol.

## 6 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae gan CBBC gyfraniad pwysig i'w wneud yn y maes hwn, yn enwedig er mwyn dod â'r byd i sylw'r DU a chyflwyno pynciau a materion rhyngwladol i'w chynulleidfa. Bydd *Newsround* a *Blue Peter* yn parhau i roi sylw i newyddion a materion tramor yn rheolaidd ac eleni bydd comedi sefyllfa newydd *Planet Ajay* yn dod â naws Bollywood i'r sianel.

# Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau CBBC

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 665 awr o raglenni drama

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 85 awr o raglenni newyddion

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 550 awr o raglenni ffeithiol

(Noder: rhestrir yr amodau oriau ar gyfer rhaglenni plant ar BBC One a Two yn eu Datganiadau o Bolisi Rhaglenni eu hunain)

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe’u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- O leiaf 70% o raglenni i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a’r holl ailddarllediadau a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus y BBC).

- Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:
- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o’r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i’r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i’r M25, a’r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu’r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae’r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau CBBC:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o’r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
  (Mae’r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys
  (Mae’r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys
  (Mae’r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# CBeebies

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae CBeebies yn cynnig rhaglenni o safon uchel sydd wedi'u cynhyrchu yn y DU gan mwyaf i addysgu a difyrru cynulleidfa ieuengaf y BBC. Dylai'r gwasanaeth ddarparu amrywiaeth o raglenni sydd â'r nod o annog plant dan 6 oed i ddysgu trwy chwarae a hynny mewn amgylchedd diogel.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd CBeebies yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae gan CBeebies gyfraniad pwysig i'w wneud i'r BBC er mwyn cyflawni'r diben hwn, fel bron yr unig fuddsoddwr mewn rhaglenni gwreiddiol i gynulleidfa o blant o dan 6 oed yn y DU. Eleni, ei nod fydd cynnal y cyfraniad hwn a rhoi hwb i enw da y BBC am raglenni creadigol ac arloesol yn yr amrywiaeth lawn o raglenni i blant cyn oedran ysgol.
- **Blaenoriaeth:** Rhoddir pwyslais ar gomisiynu rhaglenni nodedig o safon uchel ac ar weithio gydag amrywiaeth o ddoniau creadigol i adfywio'r sianel a denu gwylwyr newydd iddi. Bydd enghreifftiau allweddol yn cynnwys *3rd and Bird,* sef rhaglen newydd wedi'i hanimeiddio trwy gyfrwng CGI a *Grandpa in My Pocket,* sef comedi newydd. Bydd y sianel yn chwilio am gyfleoedd newydd ar gyfer pob math o deledu i blant oedran ysgol gan gynnwys y sioe gwis gyntaf i'r gynulleidfa hon, *Kerwhizz*, sef gêm ryngweithiol y gall gwylwyr ei gwylio ar y teledu ac ymuno ynddi ar y rhyngrwyd.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Mae gwerthoedd dysgu yn dal yn rhan allweddol o gylch gwaith CBeebies ac o ganlyniad bydd yn parhau i gyfrannu at flaenoriaethau'r BBC wrth gyflawni'r diben hwn. Mae'r rhan fwyaf o gynnwys CBeebies yn gysylltiedig â Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac Early Learning Goals y DU, a chaiff ei ddatblygu a'i gynhyrchu gan ddefnyddio arbenigwyr cyn oedran ysgol. Caiff ei greu i ysgogi diddordeb plentyn mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys mathemateg syml, llythrennedd, a gwerthfawrogi celf a cherddoriaeth.
- **Blaenoriaeth:** Eleni bydd *Mister Maker* yn dychwelyd, gyda'r nod o ysbrydoli ac ysgogi gwylwyr i gwblhau amrywiaeth o waith creadigol ffres. Bydd *Numberjacks* yn cyflwyno syniadau'n ymwneud â rhifau a datrys problemau a bydd *Space Pirates* yn cyflwyno amrywiaeth o fathau o gerddoriaeth a chyfansoddiadau. Bydd *Big and Small* yn dysgu gwylwyr am bersbectif mewn ffordd ysgafn a hwylus, a bydd iaith a llythrennedd yn cael sylw yn *Poetry Pie*, sy'n annog gwylwyr i gymryd diddordeb mewn barddoniaeth a darllen.

### 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae'r ymdeimlad o berthyn yn bwysig i blant, yn enwedig rhai ifanc iawn. Bydd CBeebies yn parhau i ddangos amrywiaeth o raglenni a fydd yn disgrifio rhanbarthau a chymunedau gwahanol, gan ychwanegu at y gwaith o gyflawni'r diben arbennig hwn ar gyfer y BBC. Sioe amgylcheddol wythnosol fydd *The Green Balloon Club* a fydd yn tynnu sylw at faterion o bob rhan o'r DU ac yn dysgu'r gynulleidfa i ofalu am ei gwlad a'i chymuned. Mae tinc Albanaidd cryf i *Nina and the*

*Neurons*, ac mae *Something Special*, cyfres gydag iaith arwyddion macaton i blant ag anghenion arbennig, yn dychwelyd ac yn crwydro i gyfarfod â phlant ym mhob gwlad a rhanbarth.

**4 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU**

- Bydd CBeebies yn cyfrannu at y diben hwn trwy barhau ei gwaith gyda Sianelau Byd-eang y BBC wrth iddynt lansio sianelau CBeebies ym mhob cwr o'r byd, yn dilyn llwyddiant byd-eang yn ddiweddar. Hefyd, bydd CBeebies yn cynnal athroniaeth o brynu'r rhaglenni gorau yn y byd ar gyfer plant ifanc, megis *ToddWorld* sy'n cyflwyno themâu yn ymwneud â gwahaniaeth, dinasyddiaeth a dealltwriaeth, a *Pinky Dinky Doo* sy'n edrych ar lythrennedd a dychymyg.

**5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd**

- Bydd CBeebies yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at flaenoriaethau'r BBC i gyflawni'r diben hwn, gan ddefnyddio llwyfannau rhyngweithiol i annog y gynulleidfa i gyfrannu mwy at yr hyn sydd ar gael. CBeebies yw un o wefannau mwyaf poblogaidd y BBC ar-lein ac mae'n rhan annatod o'r brand a bydd yn parhau i ddarparu rhaglenni gwreiddiol, gemau a chyfleoedd creadigol ychwanegol i blant iau i ryngweithio a chysylltu gyda'u hoff gymeriadau a rhaglenni.
- Hefyd, bydd y wefan yn parhau yn llwyfan i gyrraedd gwrandawyr radio trwy ffrydio a phodledu rhaglenni CBeebies Radio a bydd yn parhau i fod yn ddull i gefnogi rhieni a chynhalwyr trwy eu galluogi i archwilio a dysgu mwy am ddatblygiad plant a dysgu cynnar.

## Amodau

Dim amodau penodol.

(Noder amodau oriau ar gyfer rhaglenni plant ar BBC One a Two yn eu Datganiadau o Bolisi Rhaglenni eu hunain)

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

- O leiaf 80% o raglenni i fod yn rhai gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a'r holl ailddarllediadau a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus y BBC).

Ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

Mae'r BBC yn cadw at God Ofcom ar Wasanaethau Mynediad. Dyma dargedau CBeebies:

- Sicrhau bod o leiaf 90% o oriau rhaglenni cymwys yn cael eu hisdeitlo. Hefyd, nod y BBC yw isdeitlo 100% o'r rhaglenni gwirioneddol ar y sianel.
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Ebrill.)
- Sicrhau bod iaith arwyddion ar o leiaf 5% o oriau rhaglenni cymwys
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)
- Llun-ddisgrifio o leiaf 10% o oriau rhaglenni cymwys
  (Mae'r deuddeg mis perthnasol yn cychwyn ar 1 Tachwedd.)

# HD TV

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae sianel BBC HD yn cynnig amrywiaeth o raglenni mewn fformat Manylder Uwch, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn rhaglenni gwreiddiol sianeli eraill y BBC.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Gan mai dim ond ychydig iawn o'i rhaglenni y mae BBC HD yn eu comisiynu, mae ei chyfrifoldeb dros gyfrannu at hybu'r rhan fwyaf o ddibenion y BBC yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod rhaglenni teledu'r BBC yn parhau i apelio ac i fod yn berthnasol i ddisgwyliadau'r gwylwyr o HD barhau i dyfu.

Yn y pen draw, dylai BBC HD gynorthwyo i gynnal cyrhaeddiad y rhaglenni mae'n dangos ac yn hyn o beth, dylai gyfrannu at allu cyffredinol y BBC i gyflawni ei dibenion cyhoeddus.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Mae cyfraniad penodol BBC HD i gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC yn ymwneud â hyrwyddo teledu digidol, yn arbennig hyrwyddo ac annog pobl i wylio teledu manylder uwch. Yn benodol, bydd BBC HD yn cynnal ymgyrch farchnata yn yr haf i greu ymwybyddiaeth o'r sianel, addysgu gwylwyr a chynorthwyo i annog mwy o bobl i brynu'r gwasanaeth HD/Freesat a defnyddio BBC HD mewn cartrefi sydd â chyfarpar HD
- Bydd BBC HD yn parhau i ddarlledu amrywiaeth o raglenni, gan gyfrannu at holl ddibenion y BBC mewn rhyw ffordd a bydd yn darlledu rhaglenni gorau'r BBC mewn manylder uwch. Bydd blaenoriaethau arbennig BBC HD ar gyfer 2008 yn cynnwys digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol pwysig megis Gemau Olympaidd Beijing*, Euro 2008, Wimbledon, Glastonbury, Eurovision*, a'r *Proms*. Bydd drama ac adloniant yn cael eu darlledu hefyd gyda rhaglenni megis *Little Dorrit*, *Tess of the D'Urbervilles*, *Diary of Anne Frank*, *Bonekickers*, a *Choir Wars* yn ogystal â chyfresi ffeithiol pwysig sy'n cynnwys *Dan Cruickshank on Architecture*, *Wild China,* cyfres Simon Schama ar yr UDA ym mlwyddyn yr etholiad a *Britain from Above*.

### 2 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC HD yn gweithio gyda Sianeli Byd-eang y BBC wrth iddynt lansio sianeli BBC HD ym mhob cwr o'r byd, gan ddechrau gyda BBC HD yn Awstralia. Hefyd bydd BBC HD yn cynnal yr athroniaeth o brynu ac weithiau darlledu rhaglenni gorau HD er mwyn galluogi gwylwyr yn y DU i gael profiad o raglenni HD o safon uchel.

## Amodau: Dibenion y BBC ac ymrwymiadau HDTV

Oni nodir yn wahanol, isafswm yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Llai nag 20% o'r hyn a ddangosir i fod yn ddangosiad cyntaf o raglenni chwaraeon a ffilmiau hir a brynir (ac eithrio adeg digwyddiadau chwaraeon pwysig)

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y cwota canlynol gydag Ofcom ac fe'u mesurir ar draws blwyddyn galendr (cyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC):

Mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef o leiaf 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu hwnt i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu a ddefnyddir ledled y DU.
- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys ar draws gwasanaethau teledu'r BBC – boed yn rhai rhwydwaith neu fel arall – yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

# Radio

## BBC Radio 1

### Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod Radio 1 yw diddanu a difyrru amrywiaeth eang o wrandawyr ifanc gyda chymysgedd unigryw o gerddoriaeth gyfoes a sgwrs. Dylai adlewyrchu bywydau a diddordebau pobl 15–29 oed, ond mae hefyd yn croesawu eraill sy'n rhannu diddordebau tebyg.

Dylai gynnig y gorau o gerddoriaeth newydd, cefnogi artistiaid newydd – yn enwedig rhai o'r DU – a rhoi llwyfan i gerddoriaeth fyw. Dylai newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori drin a thrafod meysydd sy'n berthnasol i oedolion ifanc.

### Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd Radio 1 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

### Datblygiadau allweddol

#### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd amserlen Radio 1 yn canolbwyntio ar ystod ddethol o fentrau arloesol a chreadigol allweddol. Yn ogystal ag wythnos ryngweithiol unigryw o raglenni Scott Mills, bydd y rhwydwaith yn archwilio'r sylw a roddir i ffilmiau gyda'r nod o gryfhau ei gysylltiadau â'r diwydiant, gan gyrraedd uchafbwynt gyda phenwythnos arbennig yn ymwneud â byd y ffilmiau.
- **Blaenoriaeth:** Bydd nifer o fentrau newydd mewn cydweithrediad â BBC Switch yn ceisio meithrin cysylltiadau â chynulleidfaoedd iau. Bydd y rhain yn cynnwys digwyddiad cerddoriaeth fyw i bobl ifanc o dan 18 oed a noddir gan y BBC a gwaith i ailwampio The Surgery, gyda gofod ar-lein mwy rhyngweithiol sy'n darparu canllaw cynhwysfawr i bobl ifanc yn eu harddegau ym Mhrydain heddiw.
- Un o brif themâu Radio 1 fydd gweithio'n galetach i godi ymwybyddiaeth o raglenni arbenigol a mynd y tu hwnt i'r amlwg yn ein rhaglenni. Bydd ein darllediadau o ŵyl *Glastonbury* yn ategu allbwn ehangach y BBC trwy roi sylw i rai o'r llwyfannau llai ac artistiaid newydd – yn enwedig y rheini sy'n perfformio ar y llwyfan *BBC Introducing...*.
- Bwriedir darlledu o ddigwyddiadau byw llai amlwg fel gwyliau *Latitude* a'r *London Mela*; yn ogystal â'r sioeau *Radio 1 presents* mwy, er enghraifft y Foo Fighters yn Stadiwm Wembley.

#### 2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Mae Radio 1 yn gwneud cyfraniad allweddol o ran cysylltu â chynulleidfaoedd ifanc, a bydd *Newsbeat* yn teithio i sawl tref a dinas ledled Prydain er mwyn ymgysylltu ymhellach â gwrandawyr ifanc. Bydd yn siarad yn uniongyrchol â'r gynulleidfa ac yn adlewyrchu ei phryderon a'i safbwyntiau.
- Ar-lein, caiff ein tudalennau newyddion eu datblygu ymhellach i roi sylw trylwyr i newyddion gwleidyddiaeth, cerddoriaeth ac adloniant.

## 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Trwy weithio gyda 1Xtra a BBC Switch, bydd Radio 1 yn canolbwyntio ar gynyddu effaith ei hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol. Dros wyliau'r haf, byddwn yn edrych ar oryfed mewn pyliau, gan annog gwrandawyr i feddwl am beryglon goryfed. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch 'arian', a fydd yn amlygu materion arian personol.
- Bydd rhaglenni dogfen yn archwilio amrywiaeth o bynciau cerddorol a phynciau eraill, a chânt eu cynnwys ledled yr amserlen, fel sy'n briodol i'r pwnc. Bydd rhaglenni o'r fath yn cynnwys *Fast Fashion Nation*, a fydd yn archwilio obsesiwn pobl gyda ffasiwn rhad.

## 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd rhaglenni arbennig y rhwydwaith ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwneud cyfraniad allweddol at argymell artistiaid i berfformio ar lwyfan *BBC Introducing…* yn *Radio 1's Big Weekend* yn Maidstone ym mis Mai – ychwanegiad at ddigwyddiad eleni.
- Bydd calendr digwyddiadau byw Radio 1 yn adlewyrchu nosweithiau clwb a cherddoriaeth fyw ledled y DU – gan gynnwys *T in the Park* yn yr Alban, *Planet Love* yng Ngogledd Iwerddon a'r *Green Man Festival* yng Nghymru.

## 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd cyfres newydd, *International Radio 1,* yn gweld pedwar o droellwyr disgiau arbenigol allweddol Radio 1 yn cyflwyno rhaglenni dogfen o wledydd o bedwar ban byd, gan gynnwys Japan a Rwsia – gan roi blas i wrandawyr ar gerddoriaeth leol ym mhob lleoliad.

## 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Yn amodol ar hawliau a chaniatâd, bydd Radio 1 yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y posibiliadau a ddaw yn sgil technoleg i rannu ei chynnwys ar y we, gan gynnwys creu uchafbwyntiau fideo a sain mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol a galluogi gwrandawyr i ddefnyddio cynnwys Radio 1 ar eu tudalennau gwe eu hunain.

# Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 1

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 60 awr o gerddoriaeth arbenigol yr wythnos
  (Ystyr cerddoriaeth arbenigol yw cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr, gan ganolbwyntio ar fath penodol o gerddoriaeth neu gerddoriaeth o ystod o fathau sy'n torri tir newydd.)
- 40% o gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
  (Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 45% o gerddoriaeth yn ystod y dydd sy'n newydd
  (Naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau – rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho).
- tua 25 darllediad o wyliau a digwyddiadau byw yn y DU
- 250 o sesiynau newydd (ac eithrio ailddarllediadau)
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu tua 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 1 awr o newyddion yn ystod y dydd, gan gynnwys 2 fwletin estynedig
  (Gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig.)
- Bwletinau rheolaidd yn ystod y dydd dros y penwythnos

**Hyrwyddo addysg a dysgu**

- 40 o raglenni dogfen newydd

**Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau**

- 200 awr o raglenni gwreiddiol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

# BBC Radio 2

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio 2 yn wasanaeth unigryw sy’n cynnig cymysgedd o gerddoriaeth a sgwrs. Mae’n targedu cynulleidfa eang a’i nod yw apelio at bob grŵp oed dros 35 oed.

Dylai gynnig rhaglenni cerddoriaeth boblogaidd difyr a chynnwys llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd, y celfyddydau, comedi, darlleniadau a deunydd gweithredu cymdeithasol.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio 2 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy’r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae’r datblygiadau hyn wedi’u cynllunio i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni’r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd y Radio 2 Music Club yn cyflwyno casgliad arloesol o recordiadau newydd i’w comisiynu i ddathlu gwaith cyfansoddwyr Prydeinig. Bydd y prosiect yn datblygu o eitem wythnosol agoriadol yn ystod y dydd i ddathliad wythnosol, gyda rhaglenni arbennig ar rai Gwyliau’r Banc. Fel rhan o’r prosiect uchelgeisiol hwn, bydd artistiaid amlwg o’r DU a gweddill y byd yn perfformio caneuon Prydeinig “clasurol” ac yn disgrifio’u cysylltiad â’r gerddoriaeth.
- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn parhau i gefnogi talentau comedi hen a newydd ledled y DU. Caiff y rhaglen *Out To Lunch* ei hail-gomisiynu a bydd yn dod o hyd i genhedlaeth newydd o berfformwyr, a byddwn hefyd yn datblygu fformatau newydd gydag artistiaid pwysig fel Vic Reeves, Miranda Hart ac Alan Carr.
- O ran hyrwyddo cerddoriaeth fyw yn y DU, byddwn yn darparu llwyfan i berfformwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf a newydd-ddyfodiaid. Byddwn yn gweithio gyda sêr recordio amlwg i ddarparu cyngherddau unigryw, gan gynnwys un gan Radiohead.

### 2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Byddwn yn asesu sut y gellir datblygu rhaglen Jeremy Vine i ddarparu gwell dealltwriaeth o faterion gwleidyddol a materion defnyddwyr trwy well darpariaeth rhyngweithiol sy’n ategu’r deunydd darlledu.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Roedd 1968 yn flwyddyn dyngedfennol yn hanes y mudiad hawliau sifil, ac estynnodd effaith y mudiad i fywyd cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol yr Unol Daleithiau a’r byd ehangach. Caiff *Let Freedom Ring* ei darlledu i nodi deugain mlynedd ers llofruddiaeth Martin Luther King, a bydd y rhaglen yn archwilio cymhlethdodau’r digwyddiad trwy’r effaith a welir ar gerddoriaeth hyd heddiw.
- Byddwn yn rhoi blas ar y grefft o gyfansoddi cerddoriaeth trwy ail-gomisiynu *On Songwriting*. Bydd y gyfres a’i chynnwys rhyngweithiol yn dod â thri gwahanol fath o gyfansoddwr ynghyd i drafod eu hysbrydoliaeth ac i gynnig cyngor i’r rheini sy’n dechrau ar eu gyrfa fel cyfansoddwyr.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Byddwn yn bwrw golwg ar un o ryfeddodau diwylliannol unigryw Prydain, y band pres. Bydd y gyfres yn adlewyrchu amrywiaeth ei bresenoldeb, o fynyddoedd y Pennine i gymoedd Cymru, o drefi copr Cernyw i lynnoedd yr Alban. Bydd *Brass Britain* yn dathlu'r gelfyddyd boblogaidd hon y mae ei cherddoriaeth yn gefndir i hanes llawer o'n cymunedau.
- Bydd Radio 2 yn cyflwyno tymor byr o raglenni arbennig i gyd-fynd â chyfnod Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop. Yn *Bring on the Dancing Horses* byddwn yn dathlu clwb eiconig Lerpwl, Eric's, a ailsefydlodd y ddinas fel prif ddinas cerddoriaeth y DU ar ddiwedd y 1970au, a bydd *Out of Liverpool* yn ceisio darganfod pam fod y ddinas bwysig hon wedi cael cymaint o ddylanwad ar gelfyddyd ac adloniant Prydain. Bydd yr actores Sue Johnston yn archwilio *You'll Never Walk Alone,* cân o un o sioeau cerdd Broadway sydd wedi dod yn anthem ryngwladol rymus gydag effaith bersonol a haenau amrywiol o ystyron. Yn olaf, mewn cyfres ddwy ran, bydd *Don't Start Me Talking About ...* yn adrodd hanes y Beatles trwy leisiau eu dilynwyr, gan greu cymysgedd unigryw o naratif a hanes cymdeithasol.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn comisiynu un neu fwy o raglenni arbennig i gysylltu milwyr o Brydain sy'n gwasanaethu dramor gyda'u teuluoedd yn y DU.
- Mewn rhaglenni dogfen, byddwn yn cynnig dealltwriaeth o arwyddocâd Harlem, sydd wedi cyflwyno syniadau mewn cerddoriaeth, gwleidyddiaeth a datblygiad cymdeithasol a gafodd effaith fyd-eang. Byddwn yn esbonio sut mae'r rhan fach honno o Efrog Newydd wedi Ysgogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol ymhlith Americanwyr Affricanaidd ac yn dathlu'r canlyniadau.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd yr orsaf yn hyrwyddo yn arbennig yr orsaf ddigidol 6 Music, gan gynnwys trwy raglenni ar y cyd sy'n dangos ffocws cerddorol 6 Music o ran cynnig deunydd ychwanegol ar yr awyr ac yn rhyngweithiol.
- Byddwn yn ail-lansio cynnyrch rhyngweithiol Radio 2, gan gynnwys ailgynllunio'r wefan a rhoi pwyslais ar ddarparu cynnwys i declynnau symudol.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 2

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
  (Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 20% o'r yn ystod y dydd gerddoriaeth yn newydd
  (Naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau – rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho).
- 260 awr o gerddoriaeth fyw
- >1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol
- >100 awr o raglenni am y celfyddydau
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

**Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil**

- 16 awr yr wythnos o raglenni newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd
  (Gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig.)

**Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau**

- 170 awr o raglenni crefyddol yn ymdrin ag ystod eang o gredoau

# BBC Radio 3

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Dylai Radio 3 gynnig cymysgedd o raglenni cerddoriaeth a diwylliannol er mwyn difyrru a diddanu ei chynulleidfa. Cerddoriaeth glasurol yw prif arlwy'r orsaf ac fe'i hategir gan raglenni llafar sy'n ceisio hysbysu ac addysgu'r gynulleidfa am gerddoriaeth a diwylliant. Dylai jazz, cerddoriaeth y byd, drama, y celfyddydau a syniadau a rhaglenni crefyddol gael sylw yn yr amserlen.

Dylai'r gwasanaeth apelio at wrandawyr o bob oed sydd am ehangu eu gorwelion diwylliannol trwy ymgysylltu â byd cerddoriaeth a'r celfyddydau.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio 3 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** O ddechrau 2009, bydd Radio 3 yn pwysleisio pwysigrwydd y flwyddyn i gerddoriaeth glasurol ym Mhrydain, gan adeiladu ar ben-blwyddi pwysig Purcell, Handel, Haydn a Mendelssohn, pob un ohonynt â chysylltiadau â Phrydain.
- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn parhau i Ysgogi diddordeb mewn diwylliant Prydeinig trwy ddathlu pen-blwyddi Vaughan Williams a John Milton yn 2008.
- Bydd yna fwy o gydgysylltiad rhwng Radio 3 a rhaglenni'r Proms, gan gynnwys datblygu cynnwys cyd-destunol mwy cyfoethog trwy *Proms Plus*, sef cyfres o sgyrsiau cysylltiedig gydag elfennau cyhoeddus a darlledu.
- Byddwn yn parhau i roi cydnabyddiaeth i greadigrwydd trwy godi proffil y Radio 3 Awards for World Music a'r Radio 3 Choir of the Year, yn ogystal â pharhau i gyfrannu at y Royal Philharmonic Society Awards a'r British Composer Awards.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Byddwn yn rhoi cyd-destun i'n rhaglenni cerddoriaeth o ran ein cyflwyniad ac o ran cynnwys ategol ar gyfer ein gwefan. Byddwn yn parhau i gefnogi artistiaid newydd trwy'r cynllun New Generation Artists.
- Byddwn yn datblygu ein pwyslais ar argymhelliad trwy ein gwasanaeth rhyngweithiol, gan ddangos y ffordd i'r gynulleidfa werthfawrogi amrywiaeth eang o gerddoriaeth. Mae ein gwobr Choir of the Year i gantorion amatur, gyda'i phwyslais gref ar gorau ieuenctid, yn rhywbeth y mae corau o bob cwr o'r DU yn anelu ato.

### 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Yn ogystal â chyngherddau rheolaidd a darllediadau estynedig o wyliau yng Nghaeredin, Efrog, Caerfaddon, Aldeburgh a mannau eraill, byddwn yn amlygu llwyddiannau cerddorfeydd amatur yn *Play to the Nation*, gan eu dwyn i sylw cynulleidfa ehangach trwy gydol mis Hydref.

## 4 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Mae Radio 3 wedi ymrwymo i gynnig safbwyntiau rhyngwladol yn ein rhaglenni llafar, yn enwedig *Night Waves*, ac yn ein cyfraniadau at Dymor Tsieina y BBC.
- Byddwn yn cyflwyno cerddoriaeth a chelfyddydau a fydd yn mynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein perthynas â darlledwyr rhyngwladol i wella'r sylw a roddir i fywyd cerddorol y tu allan i'r DU. Byddwn hefyd yn ceisio cryfhau partneriaethau ag ensembles a chanolfannau er mwyn sicrhau'r darllediadau mwyaf difyr o bedwar ban byd.

## 5 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Er mwyn rhoi llwyfan cyhoeddus i raglenni syniadau Radio 3, byddwn yn trefnu'r trydydd rhifyn o *Free Thinking*, sef penwythnos o ddigwyddiadau llafar a fydd yn mynd i'r afael â materion cyfoes. Bydd hyn yn cynnwys y cyhoedd trwy'r ŵyl ei hun yn Lerpwl, a thrwy gynnig lefel uchel o ryngweithio. Bydd gan yr ŵyl sawl thema, gan gynnwys un o'r enw *Human Futures*.
- Bydd Radio 3 yn mynd i'r afael â materion cyfoes mewn rhaglenni fel *Night Waves* a *Music Matters*, gan drafod materion o safbwynt diwylliannol, cynnig amrywiaeth barn, ac annog gwrandawyr i ddod i'w casgliadau eu hunain.

## 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Datblygu ein gwasanaeth podledu a fersiynau gweledol o gynnwys Radio 3 ar-lein.

# Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 3

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50% o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig
- 500 darllediad o gerddoriaeth fyw neu berfformiadau wedi'u recordio'n arbennig
- Comisiynu 30 o weithiau cerddorol newydd (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Darlledu 35 o gynyrchiadau drama newydd (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- Darlledu 30 o raglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol
  (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)

### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 40% o wariant perthnasol y tu allan i'r M25
  (Mae hyn yn cynnwys gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf a dyraniad Radio 3 o gymhorthdal canolog y cerddorfeydd ond nid yw'n cynnwys gwariant ar raglenni newyddion neu chwaraeon.)

# BBC Radio 4

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar cymysg sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes treiddgar ac amrywiaeth eang o ddeunydd llafar arall gan gynnwys drama, darlleniadau, comedi a rhaglenni ffeithiol a chylchgrawn yw Radio 4.

Dylai'r gwasanaeth apelio at wrandawyr sydd eisiau rhaglenni deallusol o bob math sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio 4 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd Radio 4 yn rhoi sylw helaeth i etholiad maer Llundain a'r etholiadau lleol a sylw cynhwysfawr i'r ddadl genedlaethol ac Ewropeaidd ar gadarnhau Cytundeb Lisbon – sydd wedi disodli cyfansoddiad drafft yr UE – ac yn dadansoddi'r materion perthnasol.
- *The Radio 4 Debate*: cyfres achlysurol newydd a fydd yn trafod materion cyfoes o bryder cenedlaethol o flaen cynulleidfaoedd byw.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn Ysgogi arloesed mewn comedi trwy ymdrin â fformatau traddodiadol mewn ffyrdd newydd ac unigryw e.e. *It's Later Than You Think* gyda Marcus Brigstocke, math newydd o sioe sgwrsio.
- Bydd yna fwy o ffocws ar lai o gyfresi drama hirach i greu argraff gref e.e. *A Dance to the Music of Time*, addasiad mewn 6 rhan o nofelau epig Anthony Powell.
- Byddwn yn annog y gynulleidfa i gyfrannu mwy at weithgareddau diwylliannol e.e. trwy *Neglected Classics* yn *Open Book*, lle bydd awduron blaenllaw'n dadlau dros eu hoff glasuron, gan alluogi'r gynulleidfa i ddewis un i'w ddramateiddio yn y *Classic Serial.*

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn parhau i ddatblygu digwyddiadau ffeithiol arloesol e.e. *World on the Move*, prosiect byd natur uchelgeisiol ar ymfudiad anifeiliaid yn dilyn siwrneiau anifeiliaid mawr a bach ar 5 cyfandir.
- Mewn rhaglenni ffeithiol, bydd Radio 4 yn canolbwyntio mwy ar dymhorau trawiadol e.e. gyda thymor *Cosmology* i ddathlu agoriad y cyflymydd gronynnau mwyaf yn y byd yn CERN yn Geneva.
- Byddwn yn annog cynulleidfaoedd i ryngweithio â chynnwys ffeithiol mewn ffyrdd newydd e.e. bydd *World on the Move* a'r tymor *1968* yn cael sylw helaeth ar-lein, a bydd llawer o'r cynnwys yn cael ei gynhyrchu gan y defnyddwyr.

## 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Bydd Radio 4 yn parhau i gomisiynu cyfran sylweddol o raglenni o ranbarthau Lloegr a gweddill gwledydd y DU, gan gynnwys:
- *World on the Move,* sef cyfres 40 wythnos ar fyd natur yn fyw o Fryste
  - Cyfres o raglenni dogfen ar Islam a gwyddoniaeth o'r Alban
  - *Writing the Century,* sef cyfres 12 wythnos ar gyfer *Women's Hour Drama* a gynhyrchwyd ym Manceinion
- Byddwn yn parhau i roi sylw i amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol o bob cwr o'r DU, gan gynnwys gwyliau yn y Gelli, Caeredin, Cheltenham a Southwold gyda chomedi, adloniant a thrafodaeth.

## 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn sicrhau bod y sylw a roddir i ddigwyddiadau byd-eang yn creu mwy o argraff e.e. *1968 – Reality or Myth*, tymor o raglenni dogfen a drama a fydd yn cofio ac yn dadansoddi blwyddyn gynhyrfus, gan gynnwys rhaglen 4 munud bob dydd am 6 mis a fydd yn ail-fyw digwyddiadau tyngedfennol o bedwar ban byd trwy eitemau o'r archif sain.
- Bydd Radio 4 yn parhau i fynd i'r afael â phob math o faterion rhyngwladol cyfoes e.e. ym mlwyddyn Gemau Olympaidd Beijing, bydd y *Reith Lectures* yn bwrw golwg ar hanes modern Tsieina, yr heriau sy'n wynebu'r wlad a'r heriau mae'r wlad yn eu cyflwyno i weddill y byd.
- Bydd *Empire of Liberty*, cyfres mewn sawl rhan yn adrodd hanes yr UDA, yn dechrau wrth i'r ymgyrch etholiad arlywyddol dynnu at ei huchafbwynt ac, yn *The Uneasy Superpower*, bydd James Naughtie yn archwilio'r ansicrwydd mewnol ac allanol sy'n effeithio ar America ac yn gofyn beth mae'n ei olygu ar gyfer y dyfodol.

## 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn ail-lansio gwefan Radio 4 ar bensaernïaeth gwe 2.0, gan ei gwneud yn haws i gydgasglu a chwilio am gynnwys, a byddwn yn hyrwyddo ac ehangu ar yr ystod o bodlediadau.
- Caiff y sylw a roddir i faterion technoleg ar yr orsaf ei adnewyddu trwy dreialu elfen Technoleg Gwybodaeth newydd.
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo BBC 7 ar yr awyr a thrwy amserlenni sy'n cyd-fynd â'i gilydd, gan gyfleu'r neges mai hi yw'r orsaf ddigidol flaenllaw ar gyfer rhaglenni llafar difyr.

# Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 4

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 2,500 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 600 awr o ddarlleniadau a dramâu gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)
- 180 awr o gomedi gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 200 awr o raglenni dogfen gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)

### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 200 awr o raglenni crefyddol gwreiddiol (ac eithrio ailddarllediadau)

# BBC Radio 5 Live

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio 5 Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd. Dylai geisio cyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon pwysig wrth iddynt ddigwydd a rhoi cyd-destun trwy gyfrwng dadansoddi a thrafod helaeth.

Nod y rhaglenni yw hysbysu, difyrru a chynnwys y gynulleidfa. Dylai'r gwasanaeth apelio at ddilynwyr newyddion a chwaraeon o bob oed ac o bob cefndir ethnig a phob cwr o'r DU.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio 5 Live yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Blaenoriaethau'r Gwasanaeth

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd 5 Live yn cynhyrchu rhaglenni newyddion nodweddiadol o safon, sy'n fwy perthnasol i'w wrandawyr trwy greu tîm newyddion craidd arloesol a fydd yn darparu bwletinau newyddion ac yn rhoi sylw i straeon newyddion newydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
- Byddwn yn defnyddio mwy o straeon gwrandawyr ac yn eu hyrwyddo'n well trwy annog y gynulleidfa i gymryd rhan, gan feithrin natur unigryw a gwreiddiol newyddiaduriaeth 5 Live.
- Byddwn yn datblygu gwell dealltwriaeth o wybodaeth y gynulleidfa am wleidyddiaeth y DU er mwyn pennu ffyrdd newydd a chreadigol o esbonio'r pwnc ac adrodd arno.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd 5 Live yn archwilio ffyrdd mwy creadigol o ddenu cynulleidfa ehangach i'r ymdriniaeth o ddiwylliant a'r celfyddydau ledled rhaglenni'r orsaf.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Caiff rhaglen ymchwilio newydd *Donal MacIntyre* ei lansio i wella proffil newyddiaduriaeth ymchwilio 5 Live a denu cynulleidfa ehangach.
- Byddwn yn rhoi mwy o sylw i wyddoniaeth a thechnoleg ar y rhwydwaith.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Caiff cynnwys chwaraeon aml-gyfrwng arloesol ei ddatblygu mewn perthynas â Gemau Olympaidd 2008, a byddwn yn sicrhau bod mwy o chwaraeon ar gael trwy'r botwm coch, ar eich ffôn poced a theclynnau symudol eraill ac ar-lein.
- Byddwn yn cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU yn well trwy ddefnyddio mwy o ddarllediadau allanol, newyddiadurwyr rhanbarthol a straeon gwrandawyr.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd 5 Live yn datblygu ffyrdd o gael y gynulleidfa i gymryd mwy o ran yn y drafodaeth ar ddigwyddiadau rhyngwladol pwysig, gan gynnwys Etholiad Arlywyddol UDA.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn parhau i ddenu gwrandawyr o AM i gyfryngau digidol.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 5 Live

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- tua 75% o'r hyn a ddarlledir i fod yn rhaglenni newyddion

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

# Radio 5 Live Sports Extra

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Estyniad rhan-amser i Radio 5 Live yw 5 Live Sports Extra sy'n cynnig mwy o ddewis o chwaraeon byw i ddilynwyr chwaraeon. Dylai'r gwasanaeth gynnig mwy o werth am arian i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded gan ddefnyddio'r hawliau chwaraeon sydd eisoes ym meddiant y BBC i gynnig darllediadau gwahanol i'r rhai a ddarperir gan wasanaethau DU gyfan eraill y BBC.

Dylai holl raglenni BBC 5 Live Sports Extra fod yn rhaglenni chwaraeon byw.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio 5 Live Sports Extra yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Datblygu a hyrwyddo 5 Live Sports Extra ymhellach fel cartref criced.

### 2 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Gweithio gyda 5 Live i gefnogi darllediadau arloesol ac unigryw o ddigwyddiadau chwaraeon pwysig e.e. Gemau Olympaidd 2008.

### 3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Gweithio gyda 5 Live i ddatblygu talent newydd ym maes darlledu a chynhyrchu chwaraeon yn y DU.

### 4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Archwilio ffyrdd newydd o hyrwyddo 5 Live Sports Extra, gan godi ymwybyddiaeth o'r orsaf a cheisio cynyddu ei chynulleidfa.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio 5 Live Sports Extra

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

#### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

# BBC 1Xtra

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cryf ar gerddoriaeth fyw a chefnogi artistiaid newydd o'r DU. Dylai 1Xtra hefyd gynnig gwasanaeth newyddion arbennig, rhaglenni trafod rheolaidd a rhaglenni dogfen wedi'u comisiynu'n arbennig sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ifanc a dargedir (pobl ifanc 15–24 oed), yn arbennig i rai o leiafrifoedd ethnig, ond nid i'r rhain yn unig.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd 1Xtra yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Yn dilyn newidiadau mawr i'r amserlen ym mis Hydref 2007, bydd 1Xtra yn canolbwyntio dros y flwyddyn nesaf ar ddatblygu rhaglen frecwast Trevor Nelson a Zena a rhaglen dechrau'r nos Mistajam fel conglfeini allweddol i'r rhwydwaith.
- Bydd digwyddiadau a cherddoriaeth fyw yn cael sylw amlwg yn ein rhaglenni, gyda 1Xtra yn gweithio'n agos gyda *BBC Introducing...;* yn darlledu o'r *BBC Electric Proms;* ac yn mynd i *Glastonbury* gyda Jay-Z.
- Caiff digwyddiad newydd yr orsaf, *1Xtra Live*, a lansiwyd ym mis Mawrth 2008, ei ddatblygu gyda'r nod o sicrhau ei fod yn un o'r prif ddyddiadau yng nghalendr cerddoriaeth ddu y DU. Caiff ei ategu gan ddigwyddiadau llai a mwy arbenigol a nosweithiau clwb, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gerddoriaeth sy'n apelio at gynulleidfa 1Xtra.

### 2 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd tîm newyddion 1Xtra yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr i gynulleidfa ifanc yr orsaf, gan gynnwys nifer o raglenni arbennig sy'n mynd i'r afael â materion allweddol.
- Bydd rhaglenni dogfen wythnosol yn rhoi sylw i ffigurau cyhoeddus ac artistiaid duon eiconig, yn ogystal â mynd i'r afael â meysydd pwnc anodd a llawn her o dro i dro. Bydd *Can I Get A Witness* yn archwilio amharodrwydd rhai pobl i ymddangos fel tystion ac yn edrych ar y problemau mae hyn yn ei achosi i'r system gyfiawnder.

### 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae podlediadau'n cynnig cynnwys symudol y gellir ei dargedu at gymunedau cerddorol penodol. Bydd 1Xtra yn adolygu ystod a fformatau ei phortffolio podlediadau dros y deuddeg mis nesaf i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion gwrandawyr.
- Bydd sioe *BBC Introducing Homegrown* Ras Kwame yn teithio o gwmpas y DU i roi llwyfan i artistiaid duon newydd o Brydain.

### 4 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd 1Xtra yn darlledu'r gerddoriaeth orau o bedwar ban byd, yn ogystal â rhoi llwyfan i'r talentau gorau yn y DU o safbwynt cerddoriaeth ddu. Byddwn hefyd yn adlewyrchu digwyddiadau pwysig yn y calendr cerddoriaeth ryngwladol, er enghraifft *Power Summit 2008.*

### 5 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Trwy weithio gyda Radio 1 a BBC Switch, bydd 1Xtra yn canolbwyntio ar gynyddu effaith ei hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol. Dros wyliau'r haf, byddwn yn bwrw golwg ar oryfed mewn pyliau, gan annog gwrandawyr i feddwl am beryglon goryfed. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch 'arian', a fydd yn amlygu materion arian personol.
- Ym mis Hydref, byddwn yn dathlu *Black History Month* gyda chyfres o raglenni dogfen a rhaglenni eraill yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau gwleidyddol a cherddorol hanesyddol allweddol.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Trwy weithio'n agos gyda Radio 1, bydd 1Xtra yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r orsaf a'i chynnwys, gan rannu rhaglenni ac arbenigedd ar amrywiaeth o fentrau allweddol a cheisio mwy o gyfleoedd i'r naill orsaf hyrwyddo'r llall.
- Yn amodol ar hawliau a chaniatâd, bydd 1Xtra yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y posibiliadau mae technoleg yn eu darparu i rannu ei chynnwys ar y we, gan gynnwys creu uchafbwyntiau fideo a sain mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol, a galluogi gwrandawyr i ddefnyddio cynnwys 1Xtra ar eu tudalennau gwe eu hunain.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC 1Xtra

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 60% o gerddoriaeth yn ystod y dydd sy'n newydd
  (Naill ai heb ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau – rhyddhau'n ffisegol, nid rhyddhau i'w lawrlwytho.)
  (Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.)
- 35% o gerddoriaeth yn ystod y dydd o'r DU
- 50 o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- tua 20% o raglenni llafar yr wythnos
  (gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)
- tua 10% o'r rhaglenni yr wythnos yn canolbwyntio ar newyddion, rhaglenni dogfen a gweithredu cymdeithasol
  (gyda hyblygrwydd ar gyfer gwyliau a newidiadau achlysurol i amserlenni dan amgylchiadau arbennig)

# BBC 6 Music

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC 6 Music yn apelio at y rheini sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd, gan gynnig cerddoriaeth o'r 1960au hyd y presennol. Mae ei rhaglenni yn cyfuno recordiau newydd o'r tu allan i'r brif ffrwd gyda recordiau cynharach, gan gynnwys cerddoriaeth o Archif Sain y BBC. Dylai ddarparu cyd-destun i'r gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae, a chefnogi cerddoriaeth fyw ac artistiaid newydd.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC 6 Music yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn ymestyn ein hymrwymiad i artistiaid newydd o Brydain trwy bortffolio o weithgarwch sy'n cynnwys y rhaglen *Tom Robinson Unsigned*, sy'n defnyddio dim ond cynnwys o wefannau artistiaid; trwy roi llwyfan i artistiaid newydd o Brydain yn ardal berfformio'r orsaf, *The Hub*; a thrwy gynnig cyfleoedd i berfformio yn nigwyddiadau byw 6 Music.
- Byddwn yn datblygu'r gwasanaeth Newyddion Cerddoriaeth ymhellach trwy roi mwy o gyfle i gynulleidfaoedd dderbyn cynnwys ar eu teclynnau symudol, gan gynnwys podlediadau. Byddwn hefyd yn rhoi cyfle iddynt gael gafael ar straeon archif ar-lein.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn ailwampio ein gweithgarwch gweithredu cymdeithasol dros y flwyddyn nesaf i ddarparu ffocws penodol: *Transition*. Nod y cyfleoedd dysgu anffurfiol hyn yw helpu cynulleidfaoedd i wella'u gwybodaeth am ddigwyddiadau fel priodi, symud i ardal arall, prynu tŷ a dod yn rhiant. Byddwn yn defnyddio profiadau'r gynulleidfa a chynnwys ar-lein i gyfoethogi'r hyn a gynigir.

### 3 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Byddwn yn darparu adolygiad unigryw a hygyrch o'r mudiad *Rock Against Racism* i ddathlu ei 30 mlwyddiant. Trwy adrodd straeon, dadansoddi a defnyddio adroddiadau newydd a deunydd archif, byddwn yn archwilio'r berthynas rhwng yr elfennau diwylliannol a chymdeithasol pwysig.

### 4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Byddwn yn ehangu ar frand *The Hub* i greu presenoldeb mewn gwyliau a digwyddiadau ledled y DU, gan ddefnyddio artistiaid lleol lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn datblygu ein perthynas â'r gwledydd a'r rhanbarthau trwy'r brand *BBC Introducing…*

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Byddwn yn gweithio'n agos gyda Radio 2 i sicrhau bod yr amserlenni'n cyd-fynd â'i gilydd a bod y rhaglenni cyffredin yn cael eu hyrwyddo, gan roi cyfle i'r gynulleidfa fanteisio ar DAB a chyfryngau digidol eraill.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC 6 Music

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50% o gerddoriaeth i fod yn hŷn na 4 oed
- 400 awr o gyngherddau o'r archif
- 15% o gerddoriaeth i fod yn ganeuon cyngherddau a sesiynau o archif y BBC
- 275 o sesiynau newydd (ac eithrio ailddarllediadau a rhaglenni a brynir)
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 10 awr yr wythnos o raglenni llafar – yn rhaglenni nodwedd, dogfen a thraethodau

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 6 awr o newyddion yr wythnos

# BBC 7

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC 7 yn darparu adloniant llafar. Dylai ei amserlen gynnwys rhaglenni comedi, dramâu, straeon, rhaglenni nodwedd a rhaglenni i blant. Daw'r rhan fwyaf o'r rhaglenni o archifau'r BBC, ond dylai'r orsaf gomisiynu rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol, yn enwedig deunydd nad yw ar gael ar BBC Radio fel arfer.

Dylai'r orsaf hefyd fod yn gartref i radio llafar y BBC i blant.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC 7 yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn gweithio'n agos â gorsafoedd radio eraill y BBC i greu tymhorau effeithiol o raglenni e.e. tymor ffuglen wyddonol yn yr hydref mewn cydweithrediad â Radio 3 a Radio 4 i gynnwys drama ffuglen wyddonol newydd mewn 10 rhan.
- Bydd BBC 7 yn ehangu ar ei raglenni creadigol trwy gomisiynu mwy o raglenni newydd gan gynhyrchwyr annibynnol e.e. darlleniadau cryno a straeon trosedd a chyffro.
- Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol i gynulleidfaoedd ymgysylltu â rhaglenni BBC 7 e.e. annog gwrandawyr i awgrymu rhaglenni archif i'w darlledu; a *Chain Gang* – prosiect drama rhyngweithiol lle mae gwrandawyr yn datblygu'r stori.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Caiff dau gynhyrchiad gwreiddiol newydd eu lansio trwy elfen CBeebies Radio:
  - Cyfres ar gerddoriaeth glasurol sy'n archwilio elfennau syml cyfansoddi cerddoriaeth, a'r offerynnau cerddorol a ddefnyddir i greu'r gerddoriaeth honno, o safbwynt y plentyn ifanc.
  - Cyfres farddoniaeth sydd wedi'i chynllunio i ennyn diddordeb mewn iaith a llythrennedd ymhlith plant 5–6 oed.

### 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn creu rhaglenni mewn perthynas â digwyddiadau allweddol i gynyddu effaith e.e. caiff amrywiaeth o raglenni comedi, drama a barddoniaeth yn ymwneud â Glannau Merswy eu darlledu, i ddathlu blwyddyn Lerpwl fel Dinas Diwylliant.
- Bydd BBC 7 yn parhau i gefnogi rhaglenni o wledydd a rhanbarthau'r DU, gyda thymor o ddramâu trosedd a chyffro yn comisiynu addasiadau o bob cwr o'r DU e.e. *Baldi* (Gogledd Iwerddon) *McLevy* (yr Alban), *Truman and Riley* (Swydd Efrog).
- Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â phynciau sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU ac yn annog trafodaeth e.e. bydd *Small Island* yn dathlu 60 mlynedd ers dyfodiad y Windrush.

### 4 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Bydd BBC 7 yn parhau i ddarlledu a chynnig cynnwys ar-alw sy'n annog pobl i wrando ar radio digidol.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC 7

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 50 awr o raglenni comedi yr wythnos
- 50 awr o raglenni drama yr wythnos
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Hyrwyddo addysg a dysgu

- 1,400 awr o raglenni plant

# BBC Asian Network

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Asian Network yn darparu rhaglenni cerddoriaeth a llafar i apelio at Asiaid Prydeinig, gan ganolbwyntio'n gryf ar newyddion a materion cyfoes. Dylai ddarlledu yn Saesneg yn bennaf, ond dylid darparu rhai rhaglenni mewn amrywiaeth o ieithoedd De Asia.

Er mai Asiaid Prydeinig dan 35 oed yw'r brif gynulleidfa darged, dylai'r orsaf geisio apelio at bawb sy'n rhannu diddordeb mewn materion, cerddoriaeth a diwylliant Asiaidd Prydeinig.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Asian Network yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd tîm newyddion BBC Asian Network yn parhau i gyhoeddi straeon sy'n berthnasol i gymunedau Asiaidd y DU ac sy'n effeithio arnynt, gyda gohebwyr yn Llundain, Birmingham, Bradford a Manceinion – ynghyd ag ystafell newyddion ganolog.
- Bydd y gyfres ddogfen *Asian Network Report* yn ceisio mynd i'r afael â phynciau a materion arwyddocaol sy'n effeithio'n arbennig ar y gymuned Asiaidd Brydeinig.

### 2 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Caiff fformat y rhaglen frecwast foreol ei ddiwygio a'i ail-lansio gyda'r nod o sicrhau ei fod yn adlewyrchu ehangder golygyddol y rhwydwaith ac yn ymgysylltu â'r gynulleidfa'n well. Yn sgil hyn, bydd yn cyfrannu at ehangu cyrhaeddiad y sianel yn y blynyddoedd i ddod.
- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn diwygio amserlen y penwythnos i gynnig mwy o gerddoriaeth ac adloniant.

### 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Cynhelir digwyddiadau allgymorth ledled y DU, a gwneir cyfraniad at *BBC Introducing…*, gan gefnogi artistiaid Asiaidd newydd.
- Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu'n well â'r boblogaeth Asiaidd yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, gyda chynrychiolaeth amlwg yn y *London Mela* a chyfraniad at y *BBC Electric Proms.*

### 4 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd yr Asian Network yn cyflwyno'r gerddoriaeth wreiddiol a newydd ddiweddaraf gan dalentau Asiaidd Prydeinig, yn ogystal â'r gerddoriaeth orau gan artistiaid tramor.
- Bydd y rhaglen *Friction* yn parhau â'i heitem *Future Friction*, gan roi llwyfan i dalentau cerddorol newydd sydd heb arwyddo contract recordio.

## 5 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Rydym yn bwriadu cynnal ymgyrchoedd ar yr awyr ac ar-lein eleni i archwilio nifer o bynciau sy'n effeithio ar Asiaid Prydeinig iau, gan gynnwys crefydd ac arian.

## 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Byddwn yn adolygu ystod a fformatau podlediadau'r Asian Network i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y gynulleidfa.

# Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Asian Network

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 50 : 50 fel cymhareb llafar : cerddoriaeth

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 40% o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU
  (Caiff y dydd ei ddiffinio fel bod rhwng 06.00 a 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08.00 a 14.00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul)
- Cyfrannu at ymrwymiad BBC Radio i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol

### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 3–5 awr o raglenni y dydd ar gyfartaledd mewn ieithoedd heblaw Saesneg

# Cyfryngau'r dyfodol

## bbc.co.uk

### Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith bbc.co.uk yw cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy ddarparu cynnwys arloesol ac unigryw ar-lein, a thrwy gynigion unigryw sy'n adlewyrchu ac ehangu gwasanaethau darlledu'r BBC sydd ar gael i bawb.

Dylai bbc.co.uk alluogi'r BBC i ddatblygu perthynas agosach gyda thalwyr ffi'r drwydded a chryfhau atebolrwydd. Dylai weithredu fel man cychwyn ar y rhyngrwyd lle gall defnyddwyr ddatblygu eu defnydd o'r cyfrwng a darparu canllaw dibynadwy i'r we ehangach.

Dylai bbc.co.uk sicrhau cydbwysedd bob amser rhwng y potensial ar gyfer creu gwerth cyhoeddus yn erbyn y perygl o effaith negyddol ar y farchnad.

### Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd bbc.co.uk yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei drwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Yn dilyn yr adolygiad o bbc.co.uk gan Ymddiriedolaeth y BBC, mae cynlluniau buddsoddi'r gwasanaeth yn y dyfodol, a rhai o'r datblygiadau a amlinellir isod, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth. Maent wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

### Datblygiadau allweddol

#### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Darparu cymorth ar-lein llawn ar gyfer rhaglenni sy'n cyflwyno materion democratiaeth, trafodaethau ar bynciau llosg y dydd a phryderon cymdeithasol i gynulleidfaoedd iau (e.e. '*Election* ar CBBC, *Born Survivors* ar BBC THREE a *Newsbeat* a chyfres aml-lwyfan newydd i bobl yn eu harddegau sy'n ymdrin â materion ecolegol ar BBC Switch).
- Gwella cyfranogiad ac ymrwymiad i'r prif raglenni gwleidyddol trwy adnewyddu gwefannau *Question Time*, *Panorama* a rhaglen*Today*.
- Annog llythrennedd y cyfryngau ymhlith ein defnyddwyr iau trwy brosiectau fel *Kerwhizz*, fformat cwis aml-lwyfan wedi'i animeiddio gan CBeebies, a thrwy fuddsoddi'n barhaus mewn datblygu sgiliau creadigaeth y cyfryngau gyda '*Me and My Movie'* gan CBBC, a *Blast*! i bobl yn eu harddegau.

#### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth, datblygu'r portffolio cynnwys er mwyn cynorthwyo plant oed ysgol i ennill sgiliau, gan gynnwys cynnig sgiliau newydd i blant 6–10 oed.
- **Blaenoriaeth:** Cefnogi amrywiaeth eang o ddysgu anffurfiol trwy weithgareddau meithrin gwybodaeth sy'n ymwneud â rhaglenni, gan gynnwys ymdrin â phen-blwydd cyhoeddi *On the Origin of Species*, a thrwy ddatblygu cynnwys parhaol ar-lein ar gyfer y meysydd pwnc allweddol. Yn benodol eleni, gan weithio gyda chyrff academaidd ledled y byd, bydd bbc.co.uk yn lansio

cynnyrch newydd i roi cyfle i ddefnyddwyr gymryd rhan mewn ymchwiliad gwyddonol trwy arolygon ac astudiaethau, a thrwy hynny gynhyrchu gwaith ymchwil dilys a fydd o werth parhaus i'r cyhoedd.

- Ail-lansio brandiau rhaglenni meithrin gwybodaeth pwysig ar-lein gan gynnwys *Gardners' World* a *The Culture Show*, a fydd yn paratoi llwybr mewn amrywiaeth eang o gynnyrch dysgu anffurfiol mewn pynciau fel coginio, diwylliant a garddio.
- Cynnig gwefan ryngweithiol sy'n cynnwys llawer o fideos i gefnogi sgiliau bob dydd i oedolion, gan adeiladu ar ymgyrch llythrennedd RaW a'r gwefannau sgiliau sylfaenol, Skillswise a WebWise.
- Parhau i ddatblygu gwefannau'r Learning Zone Broadband a Bitesize sy'n rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n astudio am arholiadau a phrofion ysgol, ac yn darparu clipiau fideo i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.
- Gwella cynnwys Byd Natur y BBC trwy gyfuno rhaglenni, digwyddiadau a chyfranogiad y defnyddwyr er mwyn "adrodd stori'r Byd wrth iddi ddigwydd" a thrwy gefnogi '*World on the Move*', prosiect byd natur mawr am fudo anifeiliaid, gyda phodledu, proffiliau rhywogaethau arbennig, mapiau rhyngweithiol a llinellau amser, cymylau testun a chynnwys y mae defnyddwyr yn ei greu.

## 3 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** bydd bbc.co.uk yn defnyddio technoleg i gynrychioli amrywiaeth bywyd diwylliannol yn y DU. Yn benodol, byddwn ni'n:
- Datblygu cynigion aml-lwyfan i gynrychioli bywyd diwylliannol unigryw'r gwledydd. Bydd darpariaeth newyddion unigryw'r Alban yn cael ei gwella, ynghyd â'r cynnwys sy'n ymwneud â hanes, cerddoriaeth, yr awyr agored, drama a chomedi. Bydd cynnwys hanesyddol a ffeithiol sy'n ymwneud â Chymru a Gogledd Iwerddon yn cael ei wella.
- Parhau i ddatblygu gwefannau 'Where I Live/Lleol i Mi' er mwyn cynnig mwy o gyfle i'r gynulleidfa gyfrannu at brosiectau meithrin gwybodaeth ar draws y BBC yn gyfan, gan adeiladu ar lwyddiant *Coast* a *Springwatch*.
- Buddsoddi mewn blogiau a ffyrdd eraill y gall cynulleidfaoedd ryngweithio gyda'r radio i helpu gorsafoedd fel 1Xtra ac Asian Network fel y bydd eu cynnyrch yn diwallu anghenion cymunedau allweddol y DU, a'u hysgogi i ryngweithio.
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill i ddenu cynulleidfaoedd yn eu harddegau at gynnwys gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, trwy gyflwyno deunydd Switch.
- **Blaenoriaeth:** Gan ddefnyddio Gemau Olympaidd Beijing, yr amcan hirdymor yw annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon trwy ymrwymo a rhoi sylw i gemau Olympaidd lleiafrifol wrth ddynesu at Gemau Llundain 2012. Bydd bbc.co.uk hefyd yn comisiynu cynnwys ar gyfer ffonau symudol sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth.
- Rhoi ar waith *Britain From Above* – math newydd o raglen ddogfen ar-lein lle y bydd cynnwys rhaglenni BBC One, BBC Two a BBC Four yn galluogi defnyddwyr i archwilio eu gwlad eu hunain o safbwynt newydd, a bydd ar gael ar-lein fel adnodd parhaol.
- Cefnogi rhaglenni sy'n annog cymunedau i gyfrannu (e.e. ar gyfer *Choir Wars* bydd BBC One yn defnyddio'r we a ffonau symudol i ddod â phobl at ei gilydd bob wythnos fel 'flashmobs' mewn mannau gwahanol ledled y DU, gan ddefnyddio sgriniau mawr y BBC i greu 'Corau'r Bobl').

## 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Gwella effaith a llawnder syniadau darlledu'r BBC trwy ddarparu tudalennau ar-lein ar gyfer pob rhaglen a deunydd ategol sylweddol ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys *The Archers* ar Radio 4, a 90 mlwyddiant y Cadoediad. Bydd *Speak up for Britain* ar BBC Two yn harneisio talent blogwyr fideo yn eu harddegau er mwyn dod o hyd i'r lleisiau mwyaf diddorol, angerddol a chyffrous ymhlith ieuenctid y genedl.

- Cefnogi dawn greadigol newydd gan gynnwys trwy lwyfan comedi ar-lein sy'n llawn fideos a fydd yn cyflwyno perfformwyr comedi newydd yn ogystal â gweld cymeriadau sefydledig yn wynebu risgiau creadigol.
- Gwella ymrwymiad y BBC i gerddoriaeth trwy gynnig dulliau llywio gwell rhwng cynnyrch cerddorol y BBC i gyd a gwella *BBC Introducing* ar-lein er mwyn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar artistiaid newydd neu artistiaid nad oes ganddynt gontract recordio.
- Annog creadigrwydd ymhlith defnyddwyr, yn enwedig pobl yn eu harddegau a phlant iau, gan eu cefnogi nhw i greu eu gweithiau celf, cerddoriaeth, ffilm, animeiddio, barddoniaeth, dawns a gemau eu hunain trwy fentrau newydd fel '*Stickers*' a '*Game Builder*', a fydd yn cynnig mwy o gyfle i arddangos cynnwys plant.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Rhoi sylw i Gemau Olympaidd Beijing, gyda chynnwys sydd wedi'i wella ar gyfer dyfeisiau symudol
- Lansio *Focus on China* – porth ar-lein sy'n dwyn cynnwys ynghyd o bob rhan o'r BBC i adrodd stori Tsieina a sut y daeth yn un o wledydd mwyaf pwerus y byd. Bydd y prosiect yn uno gwaith golygu â meddalwedd cydgasglu soffistigedig.
- Cefnogi rhaglenni pwysig gyda dimensiwn rhyngwladol gan gynnwys ychwanegiadau ar-lein ar gyfer cyfres Dr Alice Roberts ar BBC Two, sy'n datguddio hanes esblygiad dynol ryw o darddle gwareiddiad ymlaen.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Sicrhau bod cynnwys bbc.co.uk ar gael yn fwy eang ar lwyfannau newydd trwy iPlayer a thrwy roi cyfle i gynulleidfaoedd 'ddatgysylltu' cynnwys y BBC a'i blannu mewn gwefannau eraill. Yn arbennig, sicrhau bod cynnwys fideo a sain ar gael yn rhwyddach ar ddyfeisiau symudol.
- **Blaenoriaeth:** Creu isadeiledd sylfaenol deinamig a system hunaniaeth, graddio ac argymell newydd y gellir ei ddefnyddio i bersonoli pob llwyfan.
- Gwella profiad y defnyddwyr o bbc.co.uk, gan roi golwg ac awyrgylch newydd iddo, adfywio gwefannau (gan gynnwys Asian Network, Radio 4 a Radio 5 Live, BBC One, BBC Two, BBC Four), creu gwefan newydd ar gyfer BBC HD a darparu porwr symudol gwell.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau bbc.co.uk

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 25% (yn ôl gwerth) o'r cynnwys a'r gwasanaethau cymwys i ddod gan gyflenwyr allanol

## Ymrwymiadau statudol

Cytunodd y BBC ar sawl ymrwymiad ar ôl adolygiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r gwasanaeth, dan arweiniad Philip Graf, yn 2004. Mae'r rhain yn ffurfio cymeradwyaeth gwasanaeth ddiwygiedig y gwasanaeth.

Mae pob ymrwymiad, sy'n ffurfio cwmpas llawn y gymeradwyaeth, ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust/cy_index.html, neu drwy wneud cais i Uned yr Ymddiriedolaeth.

# BBCi

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBCi yw cynnig newyddion, gwybodaeth, addysg ac adloniant parhaus sy’n cael eu diweddaru’n gyson i holl gynulleidfaoedd teledu digidol trwy gyfryngau rhyngweithiol fideo, sain, lluniau a thestun.

Dylai BBCi gynnig cynnwys sy’n cefnogi ac ehangu ar rai rhaglenni teledu llinol. Dylai fod yn fan cychwyn a llywio ar gyfer cynnwys teledu a radio an-linol y BBC, gan gynnig deunydd ategol ac ychwanegiadau ar gyfer rhaglenni llinol.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBCi yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy’r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei drwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae’r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni’r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Mae BBCi yn bwriadu cryfhau safon ei Newyddiaduraeth trwy wella ansawdd cynhyrchu ei straeon fideo ar Newyddion a Chwaraeon fel ei gilydd yn News Multiscreen, ac ychwanegu mwy o gynnwys digidol fel rhan o'r broses newid i'r digidol.
- **Blaenoriaeth:** Fel rhan o Newid i'r Digidol yn y DU, bydd tudalennau testun Ceefax pwysig, fel amseroedd awyrennau a phrisiau amaethyddol, yn symud i wasanaeth BBCi, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth cyhoeddus hynod werthfawr hwn yn parhau i fod ar gael i’r gwylwyr.
- Mae BBCi yn parhau i gefnogi Newyddiaduraeth yn ei sylw i Etholiadau (Lleol a Cenedlaethol), digwyddiadau Seneddol (y Gyllideb) a straeon newyddion allweddol trwy ddarparu esboniad trylwyr trwy News Multiscreen ‘mynediad ar-alw’ a chynnwys testun digidol sydd ar gael trwy’r dydd bob dydd.

### 2 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Bydd BBCi yn cadw ei ymrwymiad cyfredol i addysg a dysgu, gan gynnwys ailddatblygu’r gwasanaethau parhaol a’r deunydd sy’n ategol i raglenni'r plant.

### 3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Eleni bydd Sain a Cherddoriaeth yn gwneud mwy o ddefnydd o BBCi er mwyn i sesiynau cerddorol unigryw a digwyddiadau cenedlaethol fel Glastonbury a *The Proms* fod ar gael i bawb.
- Bydd BBCi yn cydgasglu ei gynnwys chwaraeon rhyngweithiol i gyd (clywedol, lluniau a thestun), er mwyn darparu presenoldeb parhaol ar gyfer chwaraeon.

### 4 Cyflwyno’r DU i’r byd a’r byd i’r DU

- **Blaenoriaeth:** Yn 2008, bydd BBCi yn darparu cynnwys am Etholiadau'r UDA, Gemau Olympaidd Beijing yn ogystal â straeon gwerth sylw eraill o bob cwr o'r byd. Erbyn Gemau Olympaidd Beijing, bydd BBCi wedi diweddaru ac ail-lansio’i adran Chwaraeon, a fydd yn cynnig newyddion chwaraeon cynhwysfawr a chanlyniadau yn ogystal â fideos gorau BBC Sport, yn ystod y Gemau Olympaidd ac yn parhau ar ôl y gemau gyda digwyddiadau eraill.

### 5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Sicrhau bod BBCi ar gael trwy lwyfan Freesat.
- Lansio iPlayer ar lwyfannau teledu amrywiol, gyda'r botwm coch yn brif fan mynediad.
- Ymchwilio i ddefnyddio Protocol y Rhyngrwyd ('IP') i wella ansawdd ac effaith cynnwys teledu rhyngweithiol
- Sefydlu un set o safonau Teledu Protocol y Rhyngrwyd ('IPTV') ar gyfer cyhoeddi cynnwys mewn ffordd gost-effeithiol ar y llwyfan newydd hwn.
- Cynnal y gwelliant a gafwyd y llynedd o ran cyflymder y perfformiad.

## Amodau

Dim amodau penodol

# Newyddion y BBC

## BBC News Channel

### Cylch gwaith y gwasanaeth

Dylai BBC News Channel ddarparu'r newyddion diweddaraf gyda dadansoddiadau a sylwebaeth, yn gywir, diduedd ac annibynnol. Dylai roi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd, a chynnig dadansoddiad arbenigol i roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

### Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC News Channel yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

### Datblygiadau allweddol

#### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd ein hadroddiadau seneddol yn parhau i roi sylw i drafodaethau arwyddocaol a digwyddiadau seneddol o San Steffan a'r seneddau a chynulliadau datganoledig, sy'n arbennig o arwyddocaol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a byddwn ni'n parhau i egluro sefydliadau Ewropeaidd a'u gwaith.
- Bydd BBC News Channel yn cynnig eglurhad, dadansoddiad a'r cyfle i drafod, wrth i arweinwyr y tair prif blaid wleidyddol sefydlu eu safle yn yr etholiadau Lleol ac etholiad Maer Llundain yn y gwanwyn, wrth i Brif Weinidog Yr Alban geisio rhoi ei raglen ar waith, ac wrth i Ogledd Iwerddon symud ymlaen o dan Brif Weinidog newydd.
- I hyrwyddo trafodaeth genedlaethol, byddwn ni'n annog gwylwyr i ryngweithio gyda'r sianel a gwefan BBC News, i gyflwyno sylwadau ar faterion ac i holi arbenigwyr a phobl mewn awdurdod. Yn benodol byddwn ni'n
  - Darlledu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr bob awr, gan gynnwys adroddiadau chwaraeon a'r tywydd; crynodeb newyddion ar bob hanner awr; newyddion busnes bob awr rhwng 09.00 a 19.00 ar ddiwrnodau gwaith (ar yr amod nad oes bwletinau newyddion mawr).
  - Darlledu'n wythnosol y rhaglen wleidyddol *Straight Talk* lle bydd Andrew Neil yn cynnal cyfweliadau manwl.

#### 2 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Blaenoriaeth: Nod BBC News Channel yw cynnig agenda newyddion sy'n fwy rhyngwladol na phrif sianeli newyddion parhaus eraill y DU, ac felly mae'n cynnwys y prif straeon rhyngwladol, gan gynnwys sylw cynhwysfawr i etholiadau Arlywyddol UDA 2008 a digwyddiadau sy'n ymwneud â Gemau Olympaidd Beijing 2008. Bydd hwn yn adeiladu ar arbenigedd Gohebwyr y BBC sy'n gweithio mewn ystafelloedd newyddion ledled y byd i roi sylwebaeth a dadansoddiadau. Bydd newyddion parhaus yn cael ei gyd-gyflwyno'n gyson o leoliadau'r straeon newyddion mawr diweddaraf ym mhob cwr o'r byd.

- Lle bo’n briodol, bydd BBC News Channel yn cynnwys amrywiaeth o leisiau rhyngwladol ledled y ddarpariaeth, gan gynnwys cyfweliadau manwl gyda gwleidyddion rhyngwladol a phobl gyhoeddus o bwys.

### 3 Cynrychioli’r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a’i chymunedau

- Mae BBC News Channel yn darparu llawer o newyddion rhanbarthol, gan dynnu ar rwydwaith o ohebwyr ledled y DU a cheisio cynnwys safbwynt rhanbarthol o’r tu allan i Lundain yn yr holl straeon mawr perthnasol er mwyn dangos y gwahanol effaith ar wahanol rannau o’r wlad. Rydym yn chwilio am farn a sylwadau gan amrywiaeth o ffynonellau ledled y DU – pobl fusnes, academyddion, grwpiau ymgyrchu a’r cyhoedd, ac yn rhoi cyfle i wylwyr ofyn cwestiynau i westeion y sianel.
- Bydd gwleidyddiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol yn ymddangos trwy’r amserlen, gan gynnwys trafodion allweddol Senedd yr Alban a'r Cynulliadau datganoledig, ac eleni byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i’r etholiadau lleol. Eleni byddwn ni’n:
  - Cynnwys mwy o newyddion lleol a rhanbarthol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn rhannol trwy roi safbwyntiau rhanbarthol ar straeon cenedlaethol
  - Rhoi sylw i drafodaethau a phleidleisiau allweddol yn Senedd yr Alban a Chynulliadau Cymru a Gogledd Iwerddon.

### 4 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Mae BBC News Channel yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i wylwyr trwy gyflwyno newyddion a gwybodaeth ddibynadwy ar bynciau amrywiol, fel busnes ac economeg, gwyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau a diwylliant. Eleni byddwn ni’n adeiladu Brand *Entertainment 24* (E24) i roi darpariaeth well o ran newyddion adloniant a'r celfyddydau. Mae hyn yn debygol o apelio at wylwyr iau, gan helpu i fynd i’r afael â’r blwch o safbwynt y rhan honno o’r gynulleidfa nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol.

### 5 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Byddwn ni'n ychwanegu at ein darpariaeth newyddion trwy ddarparu fideo, lluniau llonydd a negeseuon y gwylwyr, lle bo’n briodol, er mwyn cynnig adroddiadau uniongyrchol a safbwyntiau o bob math. Ein nod yw galluogi cynulleidfaoedd i gyfrannu yn y ffordd symlaf bosibl a chreu un ddarpariaeth BBC News ddi-dor ar draws pob llwyfan.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau’r BBC News Channel

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

#### Cyflwyno’r DU i’r byd a’r byd i’r DU

- Darparu mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU

#### Cynrychioli’r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a’i chymunedau

- Darparu mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn rhannol trwy roi golwg rhanbarthol ar straeon cenedlaethol
- Adrodd ar newyddion chwaraeon trwy gydol y dydd, gan roi crynodeb o brif newyddion chwaraeon y dydd bob gyda’r nos
- 100 awr o newyddion chwaraeon drwy gydol y flwyddyn

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau hyn gydag Ofcom bob blwyddyn galendr (a chyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC):

- Sicrhau bod 90% o oriau yn rhaglenni gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus o eiddo'r BBC).
- Mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.
- Dylid darparu gwasanaethau isdeitlo ar gyfer o leiaf 90% o'r oriau cymwys, ac iaith arwyddion ar gyfer o leiaf 5% o'r oriau cymwys (mae BBC News Channel wedi'i heithrio rhag ymrwymiadau llun-ddisgrifio).

# BBC Parliament

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Parliament yw rhoi gwaith siambrau seneddol a chyrff deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop o fewn cyrraedd pawb.  Dylai'r gwasanaeth hefyd ddadansoddi'r pynciau llosg a'r wleidyddiaeth y tu ôl i ddadleuon seneddol, a'u rhoi yn eu cyd-destun.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Parliament yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC, trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd newydd ar y sgrin ac ar y we i roi gwybod i bobl sut mae'r amserlen ddeddfwriaethol (ac o ganlyniad ein hamserlen ni) yn gweithio.
- Ychwanegu at yr amserlen gyda deunyddiau cyfoes ar wleidyddiaeth a'r senedd a geir gan BBC Parliament a sianeli eraill y BBC.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn ychwanegu sylw at drafodion Stormont i'n hamserlenni wythnosol ochr yn ochr â digwyddiadau Holyrood a Bae Caerdydd.  Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni'r diben o helpu cynulleidfaoedd i ddeall sut mae eu gwlad yn cael ei llywodraethu.
- Adrodd ar berthynas y sefydliadau datganoledig â San Steffan yn y sylw a roddir i bwyllgorau ac yn The Record Review.

### 3 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn cynnig sylw eang a byw i Gonfensiynau'r UD a rhoi sylw estynedig i ymgyrchoedd etholiadau'r UD, mewn cydweithrediad â CSPAN.

### 4 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Cynhyrchu ffilmiau byr i egluro sut mae'r Senedd yn gweithio, gan ddatblygu ein portffolio o ganllawiau seneddol A–Y.

### 5 Cyflwyno manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Darparu hyd at 40 awr yr wythnos o gynnwys BBC Parliament i iPlayer yn ystod y tymhorau seneddol.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau BBC Parliament

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 70 awr yr wythnos o sylw i Senedd San Steffan (wythnos arferol, gan gynnwys Pwyllgorau Dethol)
- 10 awr yr wythnos o Bwyllgorau Dethol

**Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau**
260 awr o drafodion Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru, gyda phob un yn cael cyfran sylweddol o'r sylw

**Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU**
100 awr o raglenni (yn cynnwys ailddarllediadau) o Frwsel a Strasbwrg

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau hyn gydag Ofcom bob blwyddyn galendr (a chyhoeddir y canlyniadau yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC):

- Sicrhau bod 90% o oriau yn rhaglenni gwreiddiol (mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys yr holl raglenni a gomisiynwyd gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus o eiddo'r BBC).
- Mewn cydweithrediad â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu hwnt i'r M25.

# Gwledydd a rhanbarthau

# Radio Lleol Lloegr

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaeth llafar yn bennaf i gymunedau trefol a gwledig. Dylai'r rhaglenni llafar gael eu hategu gan gerddoriaeth. Y gynulleidfa darged yw gwrandawyr 50 oed a throsodd nad yw gorsafoedd eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer. Dylid rhoi pwyslais cryf ar ryngweithio a chael y gynulleidfa i gymryd rhan.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd Radio Lleol Lloegr yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Bydd Rhanbarthau Lloegr yn datblygu cynlluniau *Digital Democracy* ochr yn ochr â gweddill y BBC. Un elfen allweddol fydd cynnig gwasanaeth ar-lein llawer mwy trylwyr a rhyngweithiol yn ystod etholiadau, a hwnnw'n cyd-fynd yn agos â'r hyn a gynigir ar orsafoedd radio lleol. Bydd hyn yn rhan o gynlluniau ehangach sy'n ceisio gwneud ein cynnwys gwleidyddol yn fwy bywiog, arloesol a hygyrch, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus *Groundswell* ar faterion lleol allweddol.
- Caiff dau newyddiadurwr Llywodraeth Leol amlgyfrwng eu recriwtio dros dro yn rhanbarth Dwyrain Swydd Efrog a Swydd Lincoln yn y cyfnod cyn yr etholiadau lleol. Bydd hyn yn treialu dull newydd mwy lleol ac amlgyfrwng o gyflwyno adroddiadau gwleidyddol.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Mae cynnig band eang amlgyfrwng lleol y BBC yn rhan hanfodol o strategaeth Rhanbarthau Lloegr i ddenu cynulleidfaoedd nad yw gorsafoedd radio eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer. Disgwylir i Wledydd a Rhanbarthau gael cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gwasanaeth. Rydym yn archwilio'r ffyrdd gorau o ddefnyddio cynnwys Radio Lleol yng nghyd-destun darpariaeth band eang amlgyfrwng lleol. Mae Rhanbarthau Lloegr eisoes yn adeiladu ar ei wasanaeth sain *Click of the Day*, sy'n rhoi sylw i raglenni gorau'r dydd.
- **Blaenoriaeth:** Caiff datganiad newydd o werthoedd ac egwyddorion llywodraethu Radio Lleol ei gyhoeddi. Bydd hwn yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio mewn Radio Lleol yn canolbwyntio'n glir ar y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn cwmpasu ymdrechion Rhanbarthau Lloegr i wella'r wybodaeth a gynigir ar draws pob cyfrwng, gan gynnig mwy o fwletinau teithio a rhagolygon tywydd, a rheini'n fwy trylwyr, a gwella'r ddarpariaeth newyddion a chwaraeon trwy gasglu gwybodaeth yn well trwy ddefnyddio technoleg newydd.
- Mae Rhanbarthau Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth agosach â BBC Learning, a chraidd y bartneriaeth hon yw ymgysylltu â'r cymunedau. Caiff amrywiaeth o raglenni a phrosiectau allgymorth eu cefnogi trwy hyn ledled Radio Lleol Lloegr.

### 3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio Lleol yn gwneud cyfraniad allweddol at bartneriaeth aml-lwyfan sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Ebrill 2008 mewn partneriaeth â Chyngor y Celfyddydau. Mae *Made in England* yn dathlu creadigrwydd Lloegr ar Ddydd St George a thu hwnt. Bydd Radio Lleol yn archwilio'r berthynas rhwng Lloegr a'i phobl fel y caiff ei mynegi trwy ddulliau creadigol ac artistig, a bydd yn cynnig ysbrydoliaeth a chyfleoedd i ryngweithio, yn ogystal â chynhyrchu deunydd a fydd ar gael i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

### 4 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Mae Rhanbarthau Lloegr yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2007 ar y BBC News School Report. Mae yna fentoriaid Rhanbarthau Lloegr mewn mwy na 50 o ysgolion, ac mae amrywiaeth eang o weithgareddau allgymorth ac ar yr awyr wedi'u cynllunio. Bydd y prosiect yn galluogi Radio Lleol i glywed lleisiau newydd o gynulleidfaoedd nad yw gorsafoedd eraill yn darparu'n dda ar eu cyfer, ac i wella llythrennedd y cyfryngau.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae gorsafoedd radio lleol yn dechrau cynhyrchu rhaglenni'n ymwneud â Gemau Olympaidd 2012. Mae gorsafoedd â chysylltiadau Tsieineaidd cryf eisoes wedi cynllunio rhaglenni arbennig ar gyfer eleni. Mae eraill yn ymsefydlu mewn consortia diwylliannol lleol a chonsortia eraill i baratoi i wneud cyfraniad allweddol at ddigwyddiadau a rhaglenni 2012.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Trwy gydgasglu cynnwys Affricanaidd a Charibïaidd gorau Radio Lleol mewn podlediad newydd o'r enw *UK Black*, cawsom gyfle i ddarparu adnodd newydd i gymunedau duon ac mae eisoes yn boblogaidd dros ben. Mae yna gynlluniau i ddefnyddio'r un dull mewn perthynas â'n rhaglenni Asiaidd a rhaglenni'n ymwneud â ffydd ac i ddysgu o lwyddiannau podlediadau cyfredol wrth wella ein portffolio yn y maes hwn.
- Byddwn yn cefnogi'r newid i'r digidol a datblygiadau eraill ym maes technoleg cyfathrebu gyda chyfnod newydd o 'feddygon digidol' ar yr awyr – arbenigwyr sy'n gallu delio â chwestiynau gwrandawyr a chynnig cyngor a gwybodaeth ar draws y Rhwydwaith Radio Lleol.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Lleol y BBC

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 60% o gynnwys llafar gorsafoedd radio lleol y BBC i fod yn ystod oriau craidd (06.00–18.00)
- 100% o gynnwys llafar gorsafoedd radio lleol y BBC i fod yn ystod oriau brig amser brecwast

### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 85 awr o raglenni gwreiddiol, wedi'u cynhyrchu'n lleol, yr wythnos

## Gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr

Ar 1 Ebrill 2008, roedd gan y BBC 38 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr, a 5 gwasanaeth lleol ychwanegol

BBC Radio Berkshire
BBC Radio Bristol (yn cynnwys BBC Somerset Sound)
BBC Radio Cambridgeshire (yn cynnwys rhaglenni gwahanol ar gyfer Peterborough a'r Fens)
BBC Radio Cornwall
BBC Coventry & Warwickshire
BBC Radio Cumbria
BBC Radio Derby
BBC Radio Devon (yn cynnwys rhaglenni gwahanol ar gyfer Plymouth)
BBC Essex
BBC Radio Gloucestershire
BBC Radio Guernsey
BBC Radio Hereford & Worcester
BBC Radio Humberside
BBC Radio Jersey
BBC Radio Kent
BBC Radio Lancashire
BBC Radio Leeds
BBC Radio Leicester
BBC Radio Lincolnshire
BBC London
BBC Radio Manchester
BBC Radio Merseyside
BBC Radio Newcastle
BBC Radio Norfolk
BBC Radio Northampton
BBC Radio Nottingham
BBC Radio Oxford
BBC Radio Sheffield
BBC Radio Shropshire
BBC Radio Solent
BBC Southern Counties Radio (yn cynnwys rhaglenni gwahanol ar gyfer Sussex a Surrey)
BBC Radio Stoke
BBC Radio Suffolk
BBC Tees
BBC Three Counties Radio (yn cynnwys rhaglenni gwahanol ar gyfer Milton Keynes)
BBC Radio Wiltshire a BBC Radio Swindon
BBC WM
BBC Radio York

# BBC Radio Scotland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar i oedolion yw BBC Radio Scotland sy'n cynnig deunydd o bob math ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, dylai'r rhaglenni hefyd drafod materion sydd o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol o safbwynt Albanaidd.

Dylai BBC Radio Scotland gynnig rhaglenni lleol wedi'u targedu'n benodol a chefnogi gorsafoedd cymunedol y BBC.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio Scotland yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Byddwn yn gwella bwletinau newyddion dyddiol BBC Radio Scotland trwy gynnig cyfle i drafod materion a gofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr Alban, gan geisio gwella dealltwriaeth ein cynulleidfaoedd o sut maen nhw'n cael eu rheoli. O fis Mai 2008 ymlaen, bydd yr eitem *The Morning Extra* 20 munud yn hirach a hon, ynghyd â *Good Morning Scotland*, fydd cartref rhaglenni sgwrsio byw, gan gynnwys rhaglenni darlledu allanol. Bydd cynnydd o 50% o leiaf yn nifer y rhaglenni dogfen ymchwiliol yn y slot hwn.
- Byddwn yn parhau i ddiweddaru fformatau rhaglenni newyddion fel *Scotland Live* a *Scotland at Ten* ac rydym wrthi'n datblygu agwedd newydd at faterion Ewropeaidd o fewn y rhaglenni gwleidyddol.
- Bydd rhaglenni nad ydynt yn dilyn fformat newyddion fel *Quay Conversations* yn galluogi cynulleidfaoedd i ddod wyneb yn wyneb â phobl ddylanwadol mewn sesiynau hawl i holi byw.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Ar lefel gymunedol, rydym yn parhau i ddarparu rhaglenni newyddion, chwaraeon a diwylliannol lleol i ardaloedd fel Orkney, Shetland, Aberdeen, yr Ucheldiroedd, y Gororau ac ati. Y llynedd, treialwyd prosiect a ddyblodd nifer y bwletinau lleol o ystafell newyddion Inverness, a'n bwriad yw ymestyn y prosiect hwn i Aberdeen dros y flwyddyn nesaf.
- Drwy'r flwyddyn, byddwn yn rhoi sylw i wyliau cerddorol a chelfyddydol o bob cwr o'r Alban, gan gynnwys y digwyddiadau BookTown yn Wigtown a'r Borders Book Festival yn Melrose. Bydd y rhaglen *Highland Café* yn dychwelyd am chwe mis yn ystod haf/hydref 2008.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Bydd BBC Radio Scotland yn cefnogi mentrau addysg ehangach fel prosiect *Scotland's History* ac yn darparu rhaglenni dogfen unigol a chyfleoedd i blant ysgol gymryd rhan yn y prosiect.
- Bydd prosiect *SoundTown* – sydd bellach yn ei bumed flwyddyn – yn parhau. Yn ôl rhaglen a oedd yn bwrw cipolwg yn ôl ar ysgolion SoundTown blaenorol, mae'r prosiect wedi llwyddo i wella hyder disgyblion, cryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau a darparu cymorth i athrawon.

- Mae ein prosiect *Write Here, Write Now*, lle mae awduron proffesiynol yn cynnig cyngor arbenigol i nofelwyr amatur, bellach yn denu dros ddwy fil o gyfranogwyr.
- Byddwn yn parhau i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol dielw, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a chysgodi i wirfoddolwyr yr orsaf. Rydym wedi rhoi llwyfan i'r sector mewn cyfres ddiweddar – *Radio Days* – a byddwn yn parhau â'n cysylltiad agos ag Insight Radio (yr hen Vip on Air) sy'n cynnig gwasanaethau i wrandawyr dall a rhannol ddall.

### 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Dros y flwyddyn nesaf, bydd BBC Radio Scotland yn buddsoddi mwy yn y gwaith o gomisiynu a chynhyrchu rhaglenni comedi a drama newydd gyda'r nod o annog ysgrifenwyr newydd a chyfredol. Byddwn yn darlledu 10 drama wreiddiol yn 2008 ac yn datblygu o leiaf 4 fformat comedi newydd i ategu'r fformatau hynny sydd eisoes yn boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd.
- O fis Hydref 2008, byddwn yn adnewyddu ein hamserlen nos Wener, gan gynnwys lansio fformat cerddoriaeth ac adloniant newydd (teitl i'w gadarnhau) a fydd yn apelio at oedolion ifanc.
- Ym myd cerddoriaeth, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r World Pipe Band Championship a Chyngor Celfyddydau'r Alban/Creative Scotland o ran cefnogi bandiau newydd o'r Alban yng ngŵyl SXSW yn Texas, a byddwn yn parhau i gefnogi a noddi gwobrau BBC Radio Scotland, Young Traditional Musician of the Year a Young Jazz Musician of the Year.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae BBC Radio Scotland yn boblogaidd dros y rhyngrwyd ledled y byd, yn enwedig yng Ngogledd America ac Awstralia. Mae rhaglenni poblogaidd ymhlith y cynulleidfaoedd hyn yn cynnwys ein rhaglenni cerddoriaeth draddodiadol a rhaglenni dros nos. Mae ein gwasanaeth newydd o bodlediadau (yn enwedig y podlediadau pêl-droed a chomedi) wedi bod yn hynod boblogaidd gyda chynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol, Prydeinig a rhyngwladol hefyd. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn darlledu rhaglenni dros nos newydd ym maes comedi, hanes, cerddoriaeth Geltaidd, cerddoriaeth newydd, y celfyddydau, jazz a cherddoriaeth glasurol. Caiff yr eitemau sain newydd hyn eu hategu ar byrth ar-lein newydd BBC Scotland.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Fel uchod, ein dull newydd o ddarparu eitemau sain ar-lein, gyda thestun a deunydd gweledol i'w cefnogi, fydd craidd ein strategaeth yn y maes hwn. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwrando ar orsafoedd radio dros y rhyngrwyd, ynghyd â'r ffaith fod radio rhyngrwyd ar gael ar declynnau newydd fel radio Reciva a'r iPhone, yn gyfle i ddenu cynulleidfaoedd newydd. Byddwn yn cynyddu nifer y podlediadau wythnosol neu ddyddiol sydd ar gael gan BBC Radio Scotland.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Scotland

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

#### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- 43 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes yr wythnos

#### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 200 awr o raglenni radio'n ymwneud â'r celfyddydau (gan gynnwys ailddarllediadau storïol o sioe ddyddiol am y celfyddydau)

# BBC Radio nan Gàidheal

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Cylch gwaith BBC Radio nan Gàidheal yw cynnig gwasanaeth llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr ar gyfer siaradwyr Gaeleg sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o raglenni ac sy'n adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl yr Alban o safbwynt Gaelaidd a thrwy gyfrwng y Gaeleg.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio nan Gàidheal yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio nan Gàidheal yn darparu gwasanaeth newyddion diduedd, gan gyfuno adroddiadau a dadansoddiad gyda chyfranogiad unigolion a chymunedau, gyda ffocws penodol ar y materion hynny sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd Gaeleg ac sy'n effeithio arnynt. Bydd rhaglenni llafar eraill, fel *Coinneach MacIomhair*, yn rhoi cipolwg ar faterion o bwys yn yr Alban sydd ohoni. Darlledir newyddion ar adegau pwysig ar yr amserlen, gyda bwletinau'n cael eu darlledu'n aml yn ystod y dydd. Bydd rhaglenni gwleidyddol fel *Aithris na Maidne* ac *Aithris na Seachdain* yn canolbwyntio ar faterion yr Alban, ond byddant hefyd yn rhoi sylw i Senedd San Steffan a Senedd Ewrop, gan wella dealltwriaeth cynulleidfaoedd o sut maent yn cael eu rheoli ar lefel leol, genedlaethol, y DU ac Ewropeaidd.
- Bydd Radio nan Gàidheal yn cynnig llwyfan ar gyfer cymunedau Gaeleg yr Alban. Fel sy'n briodol, bydd yn addasu mentrau llythrennedd ehangach y BBC ar gyfer ei chynulleidfaoedd ei hun. Caiff ymdrechion casglu newyddion a rhaglenni newyddion Radio nan Gaidheal eu hategu gan y gwasanaethau teledu ac ar-lein newydd a ddarperir fel rhan o'r Gwasanaeth Digidol Gaeleg, a'u cydgysylltu â'r rhain. Bydd cynnydd yn nifer y newyddiadurwyr Gaeleg mewn cymunedau ac, o ganlyniad, caiff y sylw a roddir i newyddion cymunedol, lleol a chenedlaethol ei ehangu.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- Mae Radio nan Gàidheal yn darlledu ledled yr Alban, gan gynnwys yr ynysoedd, ac yn adlewyrchu bywydau amrywiol ei gwrandawyr trwy ei rhaglenni, gan gynnwys digwyddiadau, seremonïau a phen-blwyddi o arwyddocâd cenedlaethol. Yn 2008/09, byddwn yn rhyngweithio â'n cynulleidfaoedd trwy waith allgymorth lleol, ac yn eu hannog i gymryd rhan yn ein rhaglenni o ddydd i ddydd, trwy ein rhaglenni newyddion a rhaglenni ar faterion y dydd, fel *Coinneach MacIomhair*, a thrwy ein rhaglenni cerddoriaeth, fel *Mire ri Moir* a *Caithream Ciuil*, sy'n rhoi llais i bob math o safbwyntiau. Byddwn yn defnyddio'n gwefannau yn bbc.co.uk/alba i gefnogi ac ymestyn y gwaith hwn.
- Byddwn yn parhau i gynnig myfyrdod ar y gymuned Aeleg nawr ac yn y gorffennol trwy raglenni unigol a chyfresi a fydd yn canolbwyntio ar faterion gwledig a threfol.
- Byddwn hefyd yn gweithio i ymestyn ein hapêl at gynulleidfaoedd ifanc ac i gyrraedd mwy ohonynt gyda rhaglenni fel *Rapal*, ac yn datblygu sgiliau ymhlith plant a phobl ifanc trwy waith allgymorth mewn ysgolion trwy'r sioe wythnosol *Aileag*.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Bydd Radio nan Gàidheal yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol ar draws amrywiaeth eang o bynciau yn ein rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Yn arbennig, byddwn yn darlledu cyfresi addysg ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynorthwyo pobl i ddysgu Gaeleg ac yn cefnogi datblygiad yr iaith. Byddwn yn defnyddio ystod o raglenni i gefnogi datblygiad y meddylfryd a'r canllawiau mewn perthynas â dogfen Gweithrediaeth yr Alban *A Curriculum for Excellence*, trwy bortreadu plant a phobl ifanc fel dysgwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, dinasyddion cyfrifol a chyfranwyr effeithiol at gymdeithas.
- Byddwn yn parhau i gefnogi dysgwyr yr iaith a chynhyrchu amrywiaeth o raglenni sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i oedolion mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Digidol Gaeleg newydd, asiantaethau fel Bòrd na Gàidhlig a sefydliadau eraill. Bydd hyn yn cynnwys annog a chefnogi gwaith ysgrifennu Gaeleg [teitl y prosiect i'w gadarnhau].

### 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio nan Gàidheal yn meithrin gwerthfawrogiad o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes yr Alban ac yn darparu llwyfan ar gyfer y talentau a'r creadigrwydd gorau yn yr Alban. Byddwn yn cynnig llwyfan i bobl o bob cefndir, gan alluogi lleisiau newydd i ddod i'r amlwg a darganfod a chefnogi talentau ym maes ysgrifennu, cerddoriaeth ac adloniant. Defnyddir y brand cerddoriaeth aml-gyfrwng *Rapal* i ddangos y talentau newydd gorau yn yr Alban ac i annog pobl i berfformio a chyfansoddi caneuon a sgoriau cerddorol ac i ddatblygu eu sgiliau yn y maes.
- Bydd Radio nan Gaidheal yn adeiladu ar waith llwyddiannus gyda Radio Scotland ar ddigwyddiadau cerddoriaeth Geltaidd, traddodiadol a chyfoes.
- Yn 2009, bydd yr amserlen yn cynnig rhaglenni arbennig ac wythnosau thema i ategu digwyddiadau a gynhelir o dan y faner *Year of Scottish Homecoming*.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Mae Radio nan Gàidheal yn cyflwyno'r byd i'r DU trwy roi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol yn ei rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Yn 2008, bydd etholiadau arlywyddol America yn cael sylw amlwg ar yr amserlen, gan gynnwys cyfraniadau gan siaradwyr Gaeleg o gymunedau ledled America.
- Rydym yn bwriadu darlledu cyfres arloesol ar draws sawl cyfrwng ar olew yn ystod 2008/09, gyda chynnwys wedi'i baratoi ar gyfer radio yn archwilio dimensiynau lleol, cenedlaethol a byd-eang y diwydiant.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- Mae Radio nan Gàidheal ar gael ar radio digidol a chaiff ei ffrydio'n fyw ar y rhyngrwyd, gyda chyfran uchel o'r rhaglenni ar gael trwy'r cyfleuster Listen Again am saith diwrnod. Rydym yn gwneud ein gorau glas i greu rhaglenni arloesol i gynulleidfaoedd iau yr Alban. Trwy ddatblygu'r gwasanaeth newyddion, byddwn yn ceisio sicrhau bod newyddion Gaeleg ar gael trwy declynnau symudol. Mae bbc.co.uk/alba yn annog y gynulleidfa i ryngweithio, yn gwella llythrennedd y cyfryngau ac yn cyflwyno defnyddwyr i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig.

## Amodau

Dim amodau penodol.

# BBC Radio Wales

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar i oedolion yw BBC Radio Wales sy'n cwmpasu ystod eang o fathau o raglenni ac yn adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, dylai'r rhaglenni fynd i'r afael â materion o bwys i'r DU a gweddill y byd hefyd.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio Wales yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Wales yn darlledu trafodaethau unigryw o safon ar draws gorsafoedd ar bynciau amserol, perthnasol a datganoledig fel iechyd a'r iaith Gymraeg.
- Bydd yr orsaf yn darlledu Good Morning Wales ar fore dydd Sul am y tro cyntaf.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Cynyddu cyfanswm y cynnwys a ddarlledir mewn rhaglenni gan ein newyddiadurwyr cymunedol ledled Cymru.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Cyfrannu at y prosiect natur aml-lwyfan gyda'r cyflwynydd Iolo Williams a rhaglenni'n ymwneud â'r prosiect hanes aml-lwyfan *Coal House.*
- Darparu rhaglenni â ffocws ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg newydd bob wythnos o'r flwyddyn, gyda *Science Café* a *Mousemat*, a hanes, gyda *Past Master* a *Look Up Your Genes.*

### 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- Bydd Radio Wales yn datblygu rhaglenni comedi newydd gyda thalentau allweddol.
- Cynhyrchu addasiadau drama newydd o waith awduron sy'n ysgrifennu yng Nghymru heddiw.
- Ymestyn brand cerddoriaeth newydd y BBC, *Introducing...*, mewn cydweithrediad â Radio 1, gan roi llwyfan i dalentau newydd.
- Parhau i ddarlledu cyngherddau gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd Radio Wales yn parhau i roi sylw i newyddion, materion cyfoes a chwaraeon rhyngwladol sy'n berthnasol i gynulleidfa Gymreig, gan gynnwys Gemau Olympaidd Beijing.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Gwella gwefan Radio Wales a BBC Wales ymhellach gyda sain.
- Adolygu a datblygu portffolio podlediadau Radio Wales.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Wales

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- O leiaf 24 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Wales yr wythnos

# BBC Radio Cymru

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Cymraeg yw Radio Cymru ac mae'n cwmpasu ystod eang o fathau o raglenni ac yn adlewyrchu pynciau llosg, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Yn ogystal â materion lleol a chenedlaethol, mae'r rhaglenni hefyd yn trafod materion o bwys i'r DU a gweddill y byd.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llawn, sy'n rhoi sylw i wahanol fathau o raglenni. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Mae'n darlledu rhaglenni llafar yn ystod yr oriau brig amser brecwast ac mae'n darparu newyddion cywir a diduedd ledled yr amserlen. Mae'n cyflawni swyddogaeth bwysig o ran adrodd a chraffu ar fywyd gwleidyddol ac mae'n llwyfan pwysig i arbenigwyr drafod materion o bwys ac i wrandawyr rannu eu safbwyntiau cenedlaethol a'u profiadau.

Mae Radio Cymru yn cefnogi drama, celfyddydau a cherddoriaeth Gymraeg, ac yn comisiynu amrywiaeth eang o waith gan dalentau newydd a sefydledig.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Rhaglenni gwleidyddol, materion cyfoes a newyddion annibynnol yw conglfeini'r gwasanaeth. Mae newyddion yn rhan o bob rhaglen lafar amser brecwast ac amser gyrru o'r gwaith, a darlledir bwletinau newyddion yn aml yn ystod y dydd.
- Mae adroddiadau a dadansoddiadau gwleidyddol yn canolbwyntio ar faterion Cymru gyda'r nod o helpu cynulleidfaoedd i ddeall sut maent yn cael eu rheoli mewn Cymru ddatganoledig.
- Ceir podlediad a rhaglen grynodeb reolaidd yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth Cymru. Rhoddir sylw hefyd i Senedd San Steffan a Senedd Ewrop, gan fanylu ar effaith deddfwriaeth y DU ac Ewrop.
- Anogir gwrandawyr i archwilio amrywiaeth eang o bynciau ac i ymgysylltu a rhyngweithio â'r gwasanaeth. Bydd rhaglen materion cyfoes wythnosol Radio Cymru, *Manylu*, yn parhau i ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ac yn berthnasol i'n gwrandawyr.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Mae rhaglenni BBC Radio Cymru yn adlewyrchu cymunedau, diwylliannau a chredoau amrywiol Cymru. Mae'n dathlu digwyddiadau cenedlaethol allweddol – gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a Gŵyl y Faenol. Mae darllediadau o bob cwr o Gymru'n nodweddion rheolaidd ar yr amserlen yn 2008 a 2009. Mae'n darparu gwasanaeth chwaraeon cynhwysfawr.
- Mae rhaglenni crefyddol, gan gynnwys *Oedfa* ar ddydd Sul, yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gredoau yn y Gymru fodern, ac mae *Bwrw Golwg* yn parhau i ddarparu llwyfan wythnosol ar gyfer trafod a myfyrio.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- Yn 2008/09, bydd BBC Radio Cymru'n darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol ar draws amrywiaeth eang o bynciau yn ei rhaglenni nodwedd, ffeithiol a dogfen. Bydd eitemau wythnosol, fel *Stiwdio (y celfyddydau)* a *Galwad Cynnar (natur)*, yn rhoi sylw i bob math o bynciau ac yn croesgyfeirio â phrofiadau dysgu eraill a gynigir gan wasanaethau BBC Cymru. Bydd rhaglenni dogfen yn parhau i fod yn amrywiol ac yn canolbwyntio'n gryf ar ddysgu anffurfiol.

## 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Mae BBC Radio Cymru'n cefnogi talentau sefydledig ac yn parhau i roi llwyfan i leisiau a chyfranwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys perfformiadau a sesiynau rheolaidd gan fandiau heb gontract recordio, a bydd yn parhau i gyfrannu at fenter *Introducing...* y BBC a rhoi llwyfan i ysgrifenwyr ifanc, gan gynnwys y rheini y mae eu dramâu yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd.
- Mae Radio Cymru'n cwmpasu'r celfyddydau yng Nghymru'n wythnosol yn *Stiwdio* a bydd yn darlledu sawl rhaglen sy'n cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

## 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd BBC Radio Cymru'n cyflwyno'r byd i Gymru trwy roi sylw i ddigwyddiadau a materion rhyngwladol yn ei rhaglenni newyddion, materion cyfoes a chwaraeon. Bydd yn cyflwyno Cymru i'r byd trwy ffrydio cynnwys BBC Radio Cymru ar y rhyngrwyd a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd newydd o gysylltu â chyfranwyr sy'n siarad Cymraeg o bedwar ban byd. Eleni, byddwn yn rhoi sylw i etholiadau arlywyddol America a'r Gemau Olympaidd yn Beijing.

## 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Mae BBC Radio Cymru'n gwneud cyfraniad pwysig at weithgareddau aml-lwyfan y BBC yng Nghymru a byddwn yn defnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol i sicrhau ei bod ar gael yn fwy eang, i annog y gynulleidfa i ryngweithio ac i gyflwyno cynulleidfaoedd i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig. Byddwn yn darparu cynnwys ar BBC iPlayer a thrwy ddeunydd sain/gweledol ar ein gwefannau. Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd pellach i ehangu darpariaeth radio trwy deledu rhyngweithiol, a byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu sawl podlediad o dan gynllun treialu podlediadau'r BBC.

# Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Cymru

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- O leiaf 16 awr o newyddion a materion cyfoes yr wythnos

# BBC Radio Ulster/Foyle

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth llafar yn bennaf yw BBC Radio Ulster/Foyle sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni ac yn adlewyrchu holl agweddau bywyd y rhanbarth. Dylai ei rhaglenni roi sylw helaeth i faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol a rhoi sylw hefyd i ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

## Cyflawni Dibenion y BBC yn 2008/09

Bydd BBC Radio Ulster/Foyle yn parhau i gyfrannu at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC trwy'r amrywiaeth o ffyrdd a amlinellir yn ei thrwydded gwasanaeth. Ceir braslun isod o ddatblygiadau allweddol yn y ffordd y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at bob diben. Mae'r datblygiadau hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, sicrhau y gellir cyflawni'r dibenion yn y dyfodol ac ymdrin â bylchau a ganfyddir yn y ddarpariaeth yn unol â strategaethau yng nghynlluniau diben y BBC.

## Datblygiadau allweddol

### 1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn parhau i annog ei chynulleidfa i gyfrannu at faterion o ddiddordeb lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau ar yr awyr a fydd yn galluogi gwrandawyr i ofyn cwestiynau i arbenigwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd disgrifio, esbonio a hwyluso trafodaethau ynglŷn â gwaith Cynulliad Gogledd Iwerddon yn flaenoriaeth allweddol. Bydd ein rhaglenni yn y maes hwn yn cynnwys crynodebau rheolaidd o drafodion y Cynulliad yn *Today at the Assembly* a chyfweliadau gwleidyddol trylwyr fel rhan o raglenni fel *Inside Politics*. Bydd rhaglenni BBC Radio Ulster/Foyle hefyd yn ceisio deall datblygiadau eraill sy'n effeithio ar gymunedau Gogledd Iwerddon a pharhau i ymateb iddynt. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys heriau economaidd, anghenion cymunedau ymfudwyr a lleiafrifoedd ethnig, addysg ac ad-drefnu llywodraeth leol.
- Bydd BBC Radio Ulster/Foyle yn adlewyrchu arwyddocâd parhaus credoau ac ymlyniad crefyddol i lawer o bobl yng Ngogledd Iwerddon ac yn hwyluso trafodaethau ar faterion o'r fath trwy raglenni fel *Sunday Sequence*.
- Caiff materion a phryderon cymunedol eu hadlewyrchu ar draws ein rhaglenni a thrwy raglenni dyddiol fel *Talkback* a *The Stephen Nolan Show* lle gall y gwrandawyr ffonio i roi sylwadau. Byddwn yn rhoi sylw i waith elusennau lleol trwy gyfleoedd *Broadcast Appeal* misol, ac rydym yn bwriadu datblygu'r agwedd hon ar ein rhaglenni gyda chymorth ar-lein cysylltiedig.

### 2 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn parhau i adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr ledled y rhanbarth. Bydd yn defnyddio rhwydwaith BBC NI o stiwdios, gohebwyr newyddion rhanbarthol a rhaglen uchelgeisiol o ddarllediadau allanol i gryfhau a chynnal ei pherthynas â chymunedau lleol. Bydd mentrau fel *Days Like This* yn rhoi llwyfan i wrandawyr adrodd eu straeon a byddwn yn rhoi cyfle i dalentau cerddorol a chreadigol lleol trwy ein heitemau yn ystod y dydd a rhaglenni arbenigol.
- Bydd Radio Ulster/Foyle hefyd yn rhoi sylw helaeth i gemau a gweithgareddau chwaraeon lleol. Bydd ein rhaglenni yn y maes hwn yn cynnwys gemau rygbi Ulster, pob un o gemau pêl-droed rhyngwladol Gogledd Iwerddon, Pencampwriaeth y GAA a digwyddiadau nodedig fel y North West 200. Bydd *Saturday Sportsound* a *Sunday Sportsound* yn parhau i gymryd galwadau i alluogi gwrandawyr i wneud sylwadau ar faterion yn ymwneud â chwaraeon.

- Bydd Radio Ulster/Foyle yn cefnogi ieithoedd lleiafrifol brodorol ac yn cadw lle ar yr amserlen i raglenni Gwyddelig a Sgoteg Ulster. Bydd y rhaglenni hyn yn cynnwys y rhaglen gylchgrawn Wyddelig *Blas* a'r gyfres wythnosol *Kist*, sy'n darlledu rhaglenni llafar a cherddoriaeth mewn Sgoteg Ulster.

### 3 Hyrwyddo addysg a dysgu

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn parhau i ddarparu rhaglenni wedi'u teilwra'n benodol at ofynion y cwricwlwm lleol. Bydd hefyd yn annog dysgu anffurfiol trwy raglenni nodwedd a thema, gyda rhai ohonynt yn rhan o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a mentrau dysgu ledled y BBC. Rhoddir blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod buddiannau dysgu ein rhaglenni'n fwy hygyrch a datblygu partneriaethau strategol a fydd yn datgloi eu potensial yn lleol.

### 4 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn rhoi llwyfan i wyliau, digwyddiadau a gweithgareddau lleol yn ymwneud â'r celfyddydau trwy raglenni fel *Arts Extra*. Bydd hefyd yn adlewyrchu gwahanol arddulliau cerddorol trwy ddarlledu cyngherddau Cerddorfa Ulster, gan gynnwys y digwyddiad *Prom in the Park* blynyddol a sesiynau stiwdio gyda bandiau newydd. Byddwn yn parhau i annog talentau ysgrifennu, cynhyrchu a pherfformio newydd trwy fuddsoddi mewn meysydd fel comedi a datblygu cyfleoedd darlledu eraill.

### 5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

- Bydd rhaglenni newyddion a rhaglenni cysylltiedig Radio Ulster/Foyle yn rhoi sylw helaeth i faterion a digwyddiadau rhyngwladol ac yn ceisio esbonio eu harwyddocâd i gynulleidfaoedd lleol.

### 6 Trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd

- **Blaenoriaeth:** Bydd Radio Ulster/Foyle yn ceisio sicrhau bod ei rhaglenni ar gael trwy gyfryngau newydd. Un flaenoriaeth allweddol fydd datblygu cynnwys a gwasanaethau ar-lein fel rhan integredig o'n gwasanaeth radio. Byddwn hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth y gynulleidfa a'i hannog i ddefnyddio mwy ar dechnolegau newydd er mwyn cael mynediad i gynnwys y BBC. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gwaith *Community Bus* BBC NI a'i rhaglen o weithgareddau llythrennedd y cyfryngau.

## Amodau: dibenion y BBC ac ymrwymiadau Radio Ulster/Foyle

Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad, ac mae'n cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.
Mae pob amod yn flynyddol oni nodir yn wahanol.

#### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

- Dros 27 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Ulster yr wythnos
- Dros 8 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle yr wythnos

#### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

- 220 awr o raglenni mewn ieithoedd lleiafrifol brodorol, gan gynnwys rhaglenni Gwyddelig a Sgoteg Ulster

#### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

- 20 awr o gomedi newydd

# Ymrwymiadau pellach

## Ymrwymiadau pellach yn ymwneud â rhaglenni

### Gwasanaethau mynediad

Mae'r BBC wedi ymrwymo i isdeitlo 100% o raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a'r BBC News Channel yn 2008/2009, ac i ddarparu iaith arwyddion ar 5% o raglenni'r sianeli hynny. Yn ogystal, byddwn yn darparu isdeitlau ar o leiaf 810 awr o BBC Parliament trwy'r flwyddyn ac ar y rhan fwyaf o raglenni BBC HD. Rydym hefyd wedi ymrwymo i lun-ddisgrifio 10% o raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a'r BBC News Channel yn 2008/2009.

O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, rydym wedi'n rhwymo gan god Ofcom o ran darparu ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg. Mae mynediad i wasanaethau gan gynulleidfaoedd (gan gynnwys pobl â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw, nam gwybyddol neu nam echddygol) yn cael ei gwmpasu hefyd gan Ran 3 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005). Rydym wedi cytuno ar bolisïau ac wedi llunio Llawlyfr Cynhyrchu sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cynhyrchwyr rhaglenni. Mae gennym Ganllawiau ar gyfer Cynulleidfaoedd Teledu sydd â Nam ar eu Golwg hefyd. Caiff ein polisïau ar hygyrchedd gwefannau eu cyhoeddi ar-lein yn http://www.bbc.co.uk/guidelines/newmedia/

## Ymrwymiadau pellach y BBC

Mae ymrwymiad y BBC i'n cynulleidfaoedd yn mynd y tu hwnt i wasanaethau unigol. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau sylweddol sy'n berthnasol i'n gwasanaethau i gyd.

### Amrywiaeth

Nod y BBC yw adlewyrchu amrywiaeth gwirioneddol y DU yn ei rhaglenni, a chynnig rhywbeth i bawb yn y DU trwy ei gwasanaethau teledu, radio ac eraill.

Mae pob cynnig newydd am raglenni yn cynnwys datganiad amrywiaeth yn nodi sut bydd y rhaglen, lle bo'n briodol, yn cyflawni ymrwymiad y BBC i adlewyrchu'n llawn amrywiaeth y cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, ar ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i asesu pa mor effeithiol yw hyn o ran ein galluogi i gyflawni'r addewid hwn.

### Mynediad

Mae'r BBC yn un o aelodau gwreiddiol Rhwydwaith Anabledd y Darlledwyr ac wedi ymrwymo i:

- gynyddu nifer y bobl anabl ar yr awyr ac ar y sgrin
- cynyddu nifer y bobl anabl yn y gweithlu drwyddo draw
- cynyddu mynediad i wasanaethau, ar ac oddi ar yr awyr
- sicrhau mynediad i'r adeiladau

### Gwasanaethau'r BBC i bawb

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael i bawb ac yn cael eu darlledu am ddim a bod pobl sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu cael mynediad iddynt trwy gyfryngau newydd wrth i dechnolegau perthnasol ddatblygu. Mae'n gwasanaethau digidol ar gael ar Freeview, lloeren a chebl i'r graddau ac yn y ffordd y mae pob llwyfan yn ei ganiatáu.

## Hyfforddi

Bydd y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant ac mewn datblygu sgiliau ei gweithwyr. Byddwn hefyd yn neilltuo amser, arbenigedd ac arian fel cyfraniad at fentrau hyfforddi a datblygu ledled y diwydiant ac yn parhau i gynnal cynlluniau penodol i ddenu pobl newydd i'r diwydiant darlledu.

## Atebolrwydd

Mae'r BBC yn sefydliad agored a thryloyw sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Byddwn yn trafod â'n cynulleidfaoedd er mwyn dysgu ganddynt ac ymateb yn onest i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym.

Mae ein gwasanaeth gwybodaeth ar gael i gynulleidfaoedd 24 awr y dydd trwy'r flwyddyn ac mae'n ymdrin â thua 1.2 miliwn o gysylltiadau dros y ffôn, e-bost a thrwy lythyr bob blwyddyn. Mae'r cysylltiadau hyn yn amrywio o ymholiadau cyffredinol i gwynion penodol am gynnwys rhaglenni. Caiff ansawdd ein hymateb i bryderon y gynulleidfa ei fonitro'n ofalus ac mae'n destun arolwg annibynnol o foddhad cwsmeriaid.

Mae gennym broses ymdrin â chwynion sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r cyhoedd wneud cwyn ffurfiol a chael ymateb cyflym. Mae yna broses apelio dau gam i unrhyw un sy'n anfodlon â'r ymateb cychwynnol. Pwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth yw trydydd cam a cham olaf y broses yn y BBC. (Gweler bbc.co.uk/complaints)

Mae'r BBC yn trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus rheolaidd ac yn gwneud llawer o ymchwil ymysg cynulleidfaoedd i glywed safbwyntiau pobl sy'n talu ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau ad hoc o ddiddordebau ac anghenion gwahanol rannau o'r gynulleidfa a budd a gwerth gwasanaethau arbennig, yn ogystal ag arolwg misol parhaus sy'n cael barn y gynulleidfa ar y sefydliad a'i raglenni. Hefyd, mae rhwydwaith o Gynghorau Cynulleidfaoedd annibynnol gwirfoddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi adborth uniongyrchol ar wasanaethau'r BBC trwy Ymddiriedolaeth y BBC.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn adrodd ar berfformiad y BBC o'i gymharu â'r ymrwymiadau a geir yn y datganiadau hyn yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gyfer 2008/2009, i'w cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2009.